



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: **WG50719**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan- niweidio

Hydref 2024

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio deng mlynedd ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiwn print bras, Braille ac ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Is-adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: mentalhealthandvulnerablegroups@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae Fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r crynodeb hwn ar gael hefyd. Mae crynodeb o'r gwaith ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc a gynhaliwyd gan Lab Cyd-gynhyrchu Cymru ar gael hefyd.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: [Strategaeth ddrafft atal hunanladdiad a hunan-niweidio | LLYW.CYMRU](#)

Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Cyd-destun.....	5
3. Ymgysylltu Cyn Ymgynghori	6
4. Cefndir yr ymgynghoriad	7
5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: Themâu trawsbynciol	9
Cwestiwn 1: Gweledigaeth gyffredinol y strategaeth.....	12
Cwestiwn 2: Egwyddorion	16
Cwestiwn 3: Grwpiau blaenoriaeth a risg uchel	21
Cwestiwn 4: Eich barn ar Amcan 1	25
Cwestiwn 5: Eich barn ar Amcan 2	30
Cwestiwn 6: Eich barn ar Amcan 3	34
Cwestiwn 7: Eich barn ar Amcan 4	39
Cwestiwn 8: Eich barn ar Amcan 5	45
Cwestiwn 9: Eich barn ar Amcan 6	52
Cwestiwn 10: Strategaeth pob oedran	57
Cwestiwn 11: Aseidiadau Effaith.....	59
Cwestiwn 12: Y Gymraeg.....	61
Cwestiwn 13: Pwyntiau ychwanegol	65
6. Camau Nesaf	67



1. Cyflwyniad

Ar 20 Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus am 16 wythnos ar y Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (y “strategaeth”), ynghyd â'r Strategaeth Ddrafft Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol. Nod y strategaeth yw lleihau nifer a chyfraddau'r marwolaethau drwy hunanladdiad sydd wedi parhau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n ceisio sefydlu llwybr i gynorthwyo pobl sy'n hunan-niweidio ac i wella cymorth i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad hefyd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r 126 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ynghyd â chanfyddiadau allweddol o'r gwaith ymgysylltu a wnaed gyda phlant a phobl ifanc gan Lab Cyd-gynhyrchu Cymru.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ystyried y strategaeth ddrafft a rhoi eu hadborth, naill ai drwy gwblhau'r arolwg ymgynghori neu drwy gymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu.

2. Cyd-destun

Bydd y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd yn disodli'r strategaeth flaenorol [Siarad â fi 2: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru 2015-2022](#).

Mae'r strategaeth ddrafft newydd wedi'i gosod yng nghyd-destun [Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ("Cymru Iachach") sy'n egluro'r weledigaeth ar gyfer dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Cymru Iachach yn esbonio uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnydd a gwella, ac yn disgrifio'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys:

"Helpu pobl yn rhagweithiol drwy gydol eu bywydau, ledled Cymru gyfan, gan wneud ymdrech arbennig i gyrraedd y rhai mwyaf anghenus er mwyn helpu i leihau'r anghydraddoldebau iechyd a llesiant sy'n bodoli."

Mae'r strategaeth ddrafft wedi'i gosod yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014 hefyd, sy'n ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae cyflawni'r nodau llesiant sydd yn y Ddeddf yn hanfodol mewn perthynas â mynd i'r afael â rhai o brif sbardunau hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru.

Mae'r strategaeth ddrafft a gyhoeddwyd i ymgynghori arni yn cyflwyno gweledigaeth gyffredinol ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, ynghyd â chwe egwyddor sylfaenol, chwe amcan lefel uchel a nifer o is-amcanion ategol.

3. Ymgysylltu Cyn Ymgynghori

Gyda'r bwriad o lywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ddrafft a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, comisiynodd Llywodraeth Cymru sawl adolygiad i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai sydd â phrofiad bywyd i helpu i lunio blaenoriaethau'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys yr [Adolygiad Annibynnol o Strategaethau Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Siarad â Fi 2 \(2012-2022\)](#) a oedd yn cydnabod, er ein bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd pwysig dros y deng mlynedd diwethaf, “bod cryn dipyn o ffordd i fynd” – o ran y canlyniadau a'r newid cymdeithasol rydym yn ceisio eu cyflawni, sy'n debygol o fod yn hirdymor neu hyd yn oed yn pontio'r cenedlaethau. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori (a oedd yn cynnwys dros 260 o ymatebion i arolwg ar-lein) ym mis Mehefin 2023, a helpodd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r amcanion a'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer y ddwy strategaeth.

4. Cefndir yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio'n cynnwys cyhoeddi asesiadau effaith drafft ategol, yn ogystal â fersiwn Hawdd ei Deall a BSL o'r strategaeth. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn:

[Strategaeth ddrafft atal hunanladdiad a hunan-niweidio | LLYW.CYMRU](#)

Roedd ffurflen ymgynghori ar-lein ar gael, y gellid ei chyflwyno drwy e-bost a chopi caled hefyd. Cafodd ffurflen ymgynghori Hawdd ei Deall ei datblygu a'i rhannu gyda rhanddeiliaid hefyd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid drwy ddigwyddiadau ar-lein ac yn y cnawd. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau ymgysylltu gyda'r byrddau iechyd, y trydydd sector, awdurdodau lleol a grwpiau cyfeirio allweddol (er enghraifft, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig). Rhannwyd dolenni i'r ymgynghoriad yn eang gyda rhanddeiliaid, gyda ffocws penodol ar sicrhau bod gwybodaeth wedi cael ei rhannu â rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gweithio gyda grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Cafwyd cyfanswm o 126 o ymatebion i'r ymgynghoriad (dewisodd 30 o'r ymatebwyr aros yn ddiennw). Cafodd pecyn ymgysylltu ei ddatblygu a'i rannu'n eang – gyda'r bwriad o gefnogi trafodaethau ac adborth rhanddeiliaid. Arweiniodd Gweithrediaeth GIG Cymru a'r Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio sesiynau ymgysylltu penodol hefyd, a gynhaliwyd ar lefel ranbarthol.

Mae Siart 1 isod yn rhoi crynodeb o'r sefydliadau a'r unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Siart 1:

Eich diddordeb yn y strategaeth. Ticiwch bob un sy'n berthnasol.				
Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Profiad bywyd		42.57%	43
2	Gofalwr		6.93%	7
3	Aelod o'r cyhoedd		11.88%	12
4	Staff gofal iechyd		23.76%	24
5	Staff gofal cymdeithasol		14.85%	15
6	Staff trydydd sector		32.67%	33
7	Rôl broffesiynol arall		17.82%	18
8	Ymateb sefydliadol		46.53%	47
9	Mae'n well gen i beidio â dweud		0.00%	0
			wedi'i ateb	101
			wedi'i hepgor	25

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Lab Cyd-gynhyrchu Cymru i ymgymryd â gwaith ymgysylltu wedi'i deilwra gyda phlant a phobl ifanc. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2024, rhannodd 28 o bobl ifanc (rhwng 7 a 25 oed) gydag amrywiaeth o ddiddordebau, anghenion a phrofiadau bywyd, o bob rhan o Gymru, eu barn ar y Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2024-2034. Mae crynodeb a themâu allweddol o'u hymgysylltiad ar gael - ac wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylid nodi nad yw'r ymatebion o'r gwaith ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc wedi'u cynnwys yn y siartiau a'r ffigurau yn y crynodeb hwn, gan y gofynnwyd cwestiynau gwahanol iddynt yn dibynnu ar eu gallu a'u hoedran. Fodd bynnag, mae eu sylwadau wedi'u hystyried yn y naratif adborth ehangach.

5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: Themâu trawsbynciol

Codwyd nifer o themâu trawsbynciol yn y 126 ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym wedi crynhoi'r rhain isod, gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag ailadrodd ar draws ein dadansoddiad.

Cefnogaeth gref i'r strategaeth ddrafft yn gyffredinol

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 15 cwestiwn lle gwnaethom ofyn a oedd pobl yn cytuno'n gryf; yn cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; yn anghytuno; neu'n anghytuno'n gryf ag agweddau ar y strategaeth. Roedd y cwestiynau hyn yn cynnwys ffocws ar weledigaeth gyffredinol y strategaeth, egwyddorion, grwpiau blaenoriaeth a phob un o'r amcanion. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau hyn, roedd 87% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynigion. Fodd bynnag, darparwyd awgrymiadau neu welliannau manwl a phenodol hefyd.

O ran y weledigaeth gyffredinol, roedd cefnogaeth gref i fynd i'r afael â stigma ac adeiladu cymunedau tosturiol a gwydn. Roedd ymatebion yn gefnogol i agweddau eraill ar y strategaeth ehangach hefyd, megis y sylw a roddwyd i effaith gymdeithasol hunanladdiad; y pwyslais ar atal yn gynnar, ymyrraeth mewn argyfwng ac ôl-ymyrraeth ar lefel unigol a chymunedol; ac ystyried penderfynyddion cymdeithasol hunanladdiad a hunan-niweidio.

Roedd cefnogaeth arbennig o gryf i amcan 5 sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod ymateb priodol, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnig i bawb sy'n hunan-niweidio, sydd â meddyliau hunanladdol neu sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad neu mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad, gan hyrwyddo adferiad effeithiol a llai o stigma – gyda 96% o'r ymatebion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r amcan hwn.

Hunanladdiad a hunan-niweidio: Galw am fwy o gydraddoldeb

Un thema drawsbynciol bwysig o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd ymdeimlad cryf bod y strategaeth wedi'i phwysoli'n anghymesur tuag at hunanladdiad. Yn benodol, roedd galw am strategaethau a chynlluniau cyflawni ar wahân ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio, gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn faterion gwahanol iawn, ac y dylid trin y ddau yn annibynnol.

Tynnodd ymatebion sylw at yr angen am amcanion clir a phenodol ar gyfer hunan-niweidio (yr ystyriwyd eu bod ar goll o'r strategaeth), ac i'r rhain gynnwys ystyried lleihau hunan-niweidio / niwed yn ddiogel, yn ogystal â ffocws ar atal. Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i'r diffiniad o hunan-niweidio / niwed.

Mae'r strategaeth hon yn defnyddio diffiniad cul iawn o hunan-niweidio, sy'n rhywbeth rydym yn cynghori yn ei erbyn gan ei fod yn eithrio cymaint ac yn gadael nifer enfawr o bobl heb gefnogaeth. (Y Trydydd Sector)

O ran gweledigaeth gyffredinol y strategaeth, cafwyd ceisiadau penodol y dylai hunanladdiad a hunan-niweidio gael eu hystyried ar wahân ac y dylai'r weledigaeth gynnwys uchelgais i leihau cyfraddau hunanladdiad a hunan-niweidio yn annibynnol ar ei gilydd.

Adnoddau a chyllid

Roedd hon yn thema bwysig ar draws holl gwestiynau'r ymgynghoriad. O ran gweledigaeth gyffredinol y strategaeth a phob un o'r amcanion, tynnodd ymatebion sylw at sut mae angen iddynt gael eu cefnogi gan gynllun realistig a chyraeddadwy gydag adnoddau digonol. Roedd yr ymatebion yn sôn am fylchau mewn gwasanaethau, yr angen am hyfforddiant ac uwchsgilio, gwella gwasanaethau a'r angen am fodel ariannu cynaliadwy a theg ledled Cymru. Tynnwyd sylw penodol at y gwahaniaeth rhwng y weledigaeth lefel uchel yn y strategaeth a realiti llym yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Manylion ac eglurder

Soniodd llawer o'r ymatebion am y ffaith nad oedd gan y strategaeth ddrafft y manylion angenrheidiol i ganiatáu dealltwriaeth ynghylch sut y gellid ac y byddai'n cael ei chyflawni. Dywedodd rhai bod Llywodraeth Cymru wedi colli cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y manylion, i ddeall pwy fyddai'n atebol am beth ac i brofi a fyddai'r rhai a fydd yn gyfrifol am gyflawni yn y pen draw yn gallu cyflawni mewn gwirionedd. Ar draws yr holl amcanion, roedd ymatebion yn galw am fwy o eglurder a mwy o fanylion (er enghraifft - metrigau clir a chyraeddadwy, camau gweithredu, canlyniadau a llinellau amser) i ddeall yn well sut y byddai amcanion yn cael eu cyflawni.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Yn gysylltiedig â'r thema drawsbynciol ar fanylion ac eglurder, roedd galwadau am fwy o ffocws ar lywodraethu ac atebolrwydd. Galwodd ymatebion am arweinwyr ac unigolion i gael eu henwi i sicrhau atebolrwydd – er enghraifft, mewn perthynas â chymau gweithredu trawslywodraethol (amcan 2) a chyfathrebu cyfrifol, adroddiadau yn y cyfryngau a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ynghylch hunan-niweidio, hunanladdiad ac ymddygiad hunanladdol (amcan 6). Heb hyn, tynnodd yr ymatebion sylw at y risg o ddiffyg gweithredu a “busnes pawb” yn dod yn “fusnes neb”. Yn gysylltiedig â hyn, roedd thema ynghylch monitro a gwerthuso, gan gydnabod bod hon yn strategaeth ddeng mlynedd ac y bydd pethau'n newid yn ystod y cyfnod hwnnw, felly mae angen rhoi systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y strategaeth yn berthnasol ac yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf.

Profiad bywyd a chyd-gynhyrchu

Roedd hon yn thema drawsbynciol bwysig arall. Roedd yr ymatebion yn pryderu bod gorddibyniaeth ar ddata, a galwyd am fwy o ffocws ar weithio gyda'r rhai sydd â phrofiad bywyd drwy gydol y strategaeth a chefnogi cynlluniau cyflawni. Roedd cydnabyddiaeth hefyd bod angen rheoli ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc yn ofalus.

Y pwysicaf o'r egwyddorion hyn yw bod rhaid i'r strategaeth gael ei llywio gan brofiad bywyd. Y bobl bwysicaf yn y strategaeth hon yw'r bobl sydd â phrofiad o'r naill fater neu'r llall. Rhaid gwrandao ar amrywiaeth o leisiau o groestoriad o gymdeithas, gan gynnwys y grwpiau sy'n wynebu risg arbennig o uchel. Rhaid i'w lleisiau helpu i lywio'r ddogfen derfynol. (Dienw)

Ffocws ar blant a phobl ifanc

Gofynnodd cwestiwn 10 yr ymgynghoriad a oedd hi'n glir mai strategaeth i bob oedran oedd hon. Dywedodd 48% o'r ymatebion nad oedd hynny'n glir. Soniwyd yn gyson am yr angen am fwy o ffocws ar blant a phobl ifanc, gan gydnabod eu risgiau penodol (e.e. dylanwad y cyfryngau cymdeithasol) a hefyd y cyfleoedd i wreiddio arferion cadarnhaol yn ifanc.

Cwestiwn 1: Gweledigaeth gyffredinol y strategaeth

Y weledigaeth

“Bydd pobl yng Nghymru yn byw mewn cymunedau sy'n rhydd o'r ofn a'r stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niwed ac sy'n cael eu grymuso a'u cefnogi i geisio a chynnig cymorth yn ôl yr angen.”

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r weledigaeth hon a pham.

Yr hyn ddywedoch chi

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r weledigaeth hon? “Bydd pobl yng Nghymru yn byw mewn cymunedau sy'n rhydd o'r ofn a'r stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niwed ac sy'n cael eu grymuso a'u cefnogi i geisio a chynnig cymorth yn ôl yr angen.”			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
Dewisiadau Ateb				
1	Cytuno'n gryf		44.32%	39
2	Cytuno		37.50%	33
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		10.23%	9
4	Anghytuno		4.55%	4
5	Anghytuno'n gryf		3.41%	3
			wedi'i ateb	88
			wedi'i hepgor	38

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Ail-fframio'r ffocws ar stigma

Er bod rhai ymatebion yn cefnogi mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio, nododd eraill y gallai hyn fod yn anfwriadol niweidiol. Mewn rhai achosion, gall stigma fod yn ffactor amddiffynnol a gall ei leihau normaleiddio ymddygiad. Yn hytrach na cheisio dad-stigmatiddio hunanladdiad a

hunan-niweidio, dylai'r ffocws fod ar fynd i'r afael â stigma ar gyfer gofyn am gymorth, a siarad am y mathau o ymddygiad a'r ffactorau risg sy'n cyfrannu at hunanladdiad a hunan-niweidio.

Roedd ymatebion eraill o blaid dileu geiriau negyddol fel "stigma" ac "ofn" o'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer y strategaeth yn llwyr ac, yn hytrach, angori'r datganiad mewn dull cadarnhaol, seiliedig ar gryfderau. Roedd pwysigrwydd diffinio'r hyn a olygwn wrth stigma yn codi hefyd mewn ymatebion i gwestiynau eraill (er enghraifft, amcan 5).

Gweledigaeth heriol i'w chyflawni

Thema bwysig arall oedd bod ymatebion yn nodi sawl her wrth geisio cyflawni'r weledigaeth hon. Bydd newid barn a lleihau stigma yn cymryd cryn amser ac yn anodd ei gyflawni, a bydd angen dull aml-weddog. Yn hollbwysig: bydd y diffyg adnoddau a seilwaith presennol yn rhwystro cyflawni'r weledigaeth. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r thema drawsbynciol ynghylch yr angen am gynllun realistig a chyraeddadwy ar gyfer y strategaeth, gydag adnoddau digonol.

Yn ogystal, gwnaeth ymatebion sylwadau hefyd ar yr "anhydraddoldeb daearyddol" presennol a sut y bydd rhai ardaloedd yn ei chael hi'n fwy anodd nag eraill i gyflawni gweledigaeth y strategaeth.

Bydd rhai ardaloedd daearyddol yn ei chael hi'n fwy anodd nag eraill i gyflawni'r weledigaeth hon h.y. cymunedau ffermio gwledig, pentrefi a threfi bach ynysig. Mae'r rhain yn ardaloedd lle mae pawb yn adnabod pawb ac nid oes yr un faint o "anhysbysrwydd" ag a geir mewn pentref neu dref fwy. Mae gofyn am gymorth mewn ardaloedd llai ac anghysbell yn fwy anodd, yn enwedig help wyneb yn wyneb. (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig)

Mae angen i'r weledigaeth fod yn gryfach, yn gliriach ac yn fwy uchelgeisiol

Roedd ymatebion eraill yn credu'n gryf nad yw'r weledigaeth yn ddigon uchelgeisiol a bod yr iaith a ddefnyddir yn rhy oddefol – mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio. Er mwyn cryfhau'r weledigaeth hon a rhoi mwy o hygyrdd iddi, roedd ymatebion yn galw am ganlyniadau penodol a mesuradwy. Cododd nifer o gwestiynau hefyd, gan gynnwys: beth ydyn ni'n anelu ato / sut y bydd gostyngiad mewn stigma yn cael ei fesur?

Gofynnodd ymatebion am fwy o eglurder ynghylch y derminoleg a ddefnyddir, yn enwedig o ran diffinio "cymunedau" a'r hyn a olygir gan "ofn".

Mynediad at wasanaethau teg pan fo angen

Tynnodd yr ymatebion sylw at yr angen i'r weledigaeth gynnwys ffocws ar fuddsoddi mewn gwasanaethau – yn enwedig i'r rhai sydd â salwch meddwl difrifol a pharhaus, ar gyfer poblogaethau sy'n wynebu risg, ac i bobl mewn argyfwng. Mae angen i wasanaethau o'r fath fod yn amserol, yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb, gyda chydaddoldeb diwylliannol a daearyddol. Roedd ffocws penodol ar wasanaethau iechyd meddwl ataliol a modelau gofal amgen nad ydynt yn golygu gorfod mynd i'r ysbyty i'r rhai mewn argyfwng.

Cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Roedd derbyn gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn pan fo angen yn thema allweddol, gyda galw am i hyn gael ei gynnwys yn y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y strategaeth.

Ffocws ar wasanaethau gwybodus, tosturiol ac ystyriol o drawma

Nododd nifer o ymatebion ddiffyg tosturi, empathi a dealltwriaeth gan staff a chymdeithas mewn ymateb i'r rhai sy'n dangos ymddygiad hunanladdol a/neu hunan-niweidio.

Yn aml, roedden nhw'n ei labelu fel “gwastraff amser” ac yn fy ngwahodd i “symud ymlaen ac anghofio amdano”. (Fe wnaethon nhw'r un peth yn aml yn ystod y cyfnod cyn ei farwolaeth wrth iddo ddangos arwyddion bod mewn argyfwng dwfn). (Profiad Bywyd)

Mynegwyd pryderon hefyd am y cyngor (neu'r diffyg cyngor) sy'n cael ei roi ar hyn o bryd i bobl sy'n wynebu risg o hunan-niweidio neu hunanladdiad gan dimau iechyd meddwl cymunedol a sefydliadau arbenigol eraill. Roedd pwyslais cryf ar bwysigrwydd gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac nad ydynt yn cael eu barnu, a'r angen i wella profiadau'r rhai sy'n cael mynediad at gymorth.

Pwyslais ar addysg i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth

Galwodd ymatebion am i'r weledigaeth gefnogi addysg gynhwysfawr ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio ac iechyd meddwl yn ehangach. Mae angen addysg a gwybodaeth i rieni a gofaluwr sy'n cynorthwyo person sy'n hunan-niweidio a/neu'n dangos ymddygiad hunanladdol. Nododd yr ymatebion bwysigrwydd addysg a rhannu gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau a mynediad atynt hefyd, gan alluogi cymunedau i gyfeirio'n briodol.

Codwyd pwysigrwydd “cynwysoldeb” hefyd, lle tynnodd ymatebion sylw at yr angen i wasanaethau gael mwy o ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth yn eu cymunedau a theilwra addysg i anghenion unigolion.

Dull mwy ataliol a rhagweithiol

Galwodd ymatebion am ymateb mwy ataliol a rhagweithiol mewn perthynas â'r weledigaeth gyffredinol, gan fod y ffocws presennol yn cael ei ystyried yn adweithiol.

Mae'r weledigaeth gyffredinol fel y mae yn rhoi'r argraff bod y strategaeth ond yn dod i rym ar ôl i berson hunan-niweidio, meddwl am hunanladdiad neu gwblhau hunanladdiad. (Rhwydweithiau a Fforymau Rhanbarthol)

Nododd yr ymatebion yr angen i ystyried penderfynyddion ehangach hunanladdiad a hunan-niweidio hefyd, fel rhan o'r weledigaeth gyffredinol. Er mwyn lleihau nifer yr achosion o hunan-niweidio ac ymddygiad hunanladdol, mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r gwahaniaethau a allai arwain at yr ymddygiad.

Mae hyn yn cyd-fynd â materion a godwyd mewn perthynas â ffocws y strategaeth ar grwpiau blaenoriaeth a grwpiau risg uchel.

Ar ben arall y sbectrwm ymyrraeth, tynnwyd sylw hefyd at gefnogaeth ar ôl hunanladdiad (“ôl-ymyrraeth”) fel elfen hanfodol, a dylai fod yn rhan o weledigaeth gyffredinol y strategaeth. Dylai gwasanaethau sydd mewn cysylltiad â phobl sy'n ymdopi â hunanladdiad sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn cael cymorth priodol.

Cwestiwn 2: Egwyddorion

I fod yn sail i'r strategaeth – fe wnaethom nodi chwe egwyddor graidd:

- Arweinyddiaeth, perchnogaeth ac atebolrwydd
- Mae hunanladdiad a hunan-niwed yn fusnes i bawb
- Ffocws ar anghydraddoldebau a grwpiau risg
- Cydweithio amlsector
- Canolbwyntio ar yr unigolyn gyda chyfranogiad y rhai sydd wedi/yn byw'r profiad
- Seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i harwain gan wybodaeth

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Gofynnnon ni i chi a ydych chi'n cytuno mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir.

Yr hyn ddywedoch chi

Yn yr adran gweledigaeth strategol mae 6 egwyddor sy'n sail i'r strategaeth. Ydych chi'n cytuno mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir?				
Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		31.71%	26
2	Cytuno		52.44%	43
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		9.76%	8
4	Anghytuno		2.44%	2
5	Anghytuno'n gryf		3.66%	3
			wedi'i ateb	82
			wedi'i hepgor	44

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Angen gwell aliniad gyda'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol

Nododd nifer o ymatebion yr angen am well aliniad rhwng yr egwyddorion sy'n sail i'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol. Yn benodol, roedd galw am i'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio gynnwys egwyddorion ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau hefyd; dull sy'n ystyriol o drawma (gyda sawl ymateb yn feirniadol o ddiffyg cyfeiriadau yn y strategaeth at fframwaith Cymru sy'n ystyriol o drawma); dim drws anghywir; yn rhydd o stigma; mynediad, profiad a chanlyniadau teg; a mynd i'r afael â phenderfyniadau iechyd ehangach.

Dywedodd rhai ymatebion fod angen diffiniadau clir ar gyfer yr holl egwyddorion, ac y dylent ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Roedd rhai ymatebion yn teimlo bod yr egwyddorion yn rhy "gyffredinol" (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig) neu "ar lefel uchel iawn ac yn eang" (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig) ac y gallai egwyddorion mwy penodol fod wedi bod yn ddefnyddiol. Mae angen mwy o eglurder hefyd ynghylch sut mae'r egwyddorion yn ymwneud â'i gilydd – gyda chwestiynau'n cael eu gofyn ynghylch a yw arweinyddiaeth, perchnogaeth ac atebolrwydd yn gwrth-ddweud yr egwyddor bod hunanladdiad a hunan-niweidio'n fusnes i bawb.

Cefnogaeth i'r egwyddor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan ddeallusrwydd

Roedd cydnabyddiaeth bod dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan ddeallusrwydd yn effeithiol; bod angen i ymyriadau fod wedi'u seilio ar yr hyn sy'n gweithio; a bod cysylltiad uniongyrchol rhwng yr egwyddor hon a'r un sy'n canolbwyntio ar brofiad bywyd. Roedd ymatebion eraill, fodd bynnag, yn gofyn cwestiynau ynghylch yr hyn a olygir gan yr egwyddor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan ddeallusrwydd, ac yn galw am ddiffiniadau cliriach a mwy o eglurder.

Roedd cydnabyddiaeth bod angen data i ddeall lle y dylai ffocws y strategaeth fod, a gwnaeth ymatebion sylwadau hefyd ar yr angen i sefydlu gwaelodlinau i gefnogi'r egwyddor sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae ymchwil penodol i Gymru yn hanfodol i bennu pwy yn union yw'r grwpiau risg uchel, a pha anghydraddoldebau sy'n sbarduno hunanladdiad a hunan-niweidio. Bydd ymchwil ac adrodd ar ddata a chanlyniadau allweddol yn mapio tueddiadau a gwelliannau hefyd, gyda'r bwriad o bennu'r effaith mae'r strategaeth yn ei chael (Statudol).

Mae'r pwyslais ar ddefnyddio arferion a deallusrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau yn adlewyrchu ymrwymiad i effeithiolrwydd ac atebolrwydd. Drwy werthuso ymyriadau a monitro canlyniadau'n barhaus, nod y strategaeth yw addasu a mireinio dulliau gweithredu yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau yng nghyd-destun Cymru. (Y Trydydd Sector)

Roedd yr ymatebion yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd parhau i fanteisio ar ddata o'r RTSSS, a sut y bu hyn yn ddatblygiad mor gadarnhaol yng Nghymru.

...nid dim ond casglu data sy'n bwysig, ond hefyd sut y defnyddir y data hwn wedyn i nodi themâu, addasu dulliau ac arwain at well cefnogaeth neu adnabod risg. Nid yw hyn yn eglur mewn strategaethau yn aml wrth sôn am gasglu data. Byddem yn argymhell cynnwys cyfeiriad at y defnydd o ddata a dealltwriaeth o'r egwyddor sy'n ymwneud â thystiolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan ddeallusrwydd. (Dienw)

Cefnogaeth i'r egwyddor arweinyddiaeth, perchnogaeth ac atebolrwydd

Fel yr amlygwyd o dan y themâu trawsbynciol, roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor hon, gydag ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am arweinyddiaeth, perchnogaeth ac atebolrwydd ar bob lefel.

Cefnogaeth i'r egwyddor bod hunanladdiad a hunan-niweidio yn fusnes i bawb

Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor busnes i bawb, a chydabyddiaeth nad oes angen i bawb gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol. Adleisiwyd hyn mewn ymgysylltiad â'r Lab Cyd-gynhyrchu a drafododd y "canol coll" a bwlch canfyddedig yn y gefnogaeth i'r rhai nad ydynt mewn argyfwng gyda'r angen am ddarpariaeth amgen amrywiol.

Cefnogaeth i ffocws ar anghydraddoldebau a grwpiau blaenoriaeth / risg uchel

Roedd cefnogaeth gref i ffocws ar anghydraddoldebau a grwpiau risg uchel (er enghraifft, ystyriwyd bod dynion a bechgyn yn arbennig o agored i niwed), ac roedd cydnabyddiaeth arbennig o effaith anghydraddoldebau.

Fodd bynnag, cododd nifer o ymatebion bryderon ynghylch y grwpiau blaenoriaeth a risg uchel a nodwyd. At hynny, mae ffocws cynyddol ar grwpiau risg uchel yn cymryd y ffocws oddi wrth eraill ac, yn lle hynny, dylai fod ffocws ar gyffredinolïaeth gymesur.

Mewn cyferbyniad, galwodd rhai ymatebwyr am fwy o ffocws ar anghydraddoldebau drwy gydol y strategaeth.

Mae hunanladdiad yn fater iechyd cyhoeddus pwysig, ond mae'n fater anghydraddoldeb pwysig hefyd. Mae'n amhosibl mynd i'r afael â risg hunanladdiad yng Nghymru heb fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n effeithio ar hynny. (Y Trydydd Sector)

Cafwyd cefnogaeth gref i fwy o ffocws ar gynwysoldeb a grymuso, gyda galwadau am gyfeiriad penodol at yr agenda gwrth-hiliaeth yn yr egwyddor ar anghydraddoldebau.

Cefnogaeth i gydweithio amlsector

Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor ar gydweithio amlsector. Roedd yr ymatebion yn cydnabod "bod hunanladdiad a hunan-niweidio'n gysylltiedig â ffactorau niferus, gan gynnwys iechyd meddwl gwael ond hefyd ffactorau mwy strwythurol ac amgylcheddol fel amddifadedd cymdeithasol, ynysigrwydd, anabledd" (Y Trydydd

Sector). Fodd bynnag, roedd ceisiadau hefyd am i'r strategaeth gydnabod y gwaith sydd eisoes ar waith i gefnogi'r egwyddor hon (a'r lleill), yn enwedig o ran gweithio mewn partneriaeth, cryfderau gwahanol sectorau ac ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.

Nododd yr ymatebion bwysigrwydd sut mae'r strategaeth yn cydnabod nad yw pobl sy'n marw drwy hunanladdiad mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl o reidrwydd, a bod croeso arbennig i ddull amlsector o gyrraedd pob grŵp risg uchel.

Cefnogaeth i'r strategaeth fod yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda chyfranogiad y rhai sydd â phrofiad bywyd

Roedd cefnogaeth gref i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ynghyd â chydabyddiaeth bod pawb yn wahanol, ac y gallai fod angen gwahanol fathau o gymorth ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed ddarparu cymorth.

Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol gan ei fod yn cydnabod ein bod ni i gyd yn unigolion ag anghenion a allai fod yn wahanol, hyd yn oed mewn sefyllfaedd tebyg iawn. (Rhwydweithiau a Fforymau Rhanbarthol)

Roedd galw hefyd am fwy o ffocws ar rymuso sy'n seiliedig ar gryfderau a chyd-gynhyrchu gofal, ac angen sicrhau nad yw pobl yn cael eu hail-drawmateiddio drwy gyd-gynhyrchu, gyda'r angen i sicrhau bod cymorth ar gael fel rhan o'r broses honno.

Cefnogaeth i'r egwyddorion – OND maen nhw yn y drefn anghywir ac mae atal ar goll

Gwnaeth gwahanol ymatebion wahanol bwyntiau ynglŷn â threfn yr egwyddorion. Dywedodd nifer o ymatebion y dylai egwyddor ychwanegol sy'n canolbwyntio ar atal ddod yn gyntaf. Gofynnodd eraill am i'r egwyddor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu'r egwyddor busnes i bawb ddod yn gyntaf. Gofynnodd ymatebion hefyd am fwy o wybodaeth am sut y byddai'r egwyddorion yn cael eu gweithredu a'u rhoi ar waith.

Mae angen egwyddorion ychwanegol

Thema allweddol arall o'r ymgynghoriad oedd pan nododd ymatebion egwyddorion y credant eu bod ar goll. Er enghraifft, cafwyd ymatebion a oedd yn galw am egwyddorion ychwanegol yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Atal
- Addysg a hyfforddiant
- Cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau
- Codi ymwybyddiaeth o gymorth a mynediad ato
- Rôl digidol a thechnoleg
- Cefnogaeth i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad
- Lleihau stigma a gwahaniaethu
- Gwasanaethau anfeirniadol
- Cymorth cydymdeimladol a thosturiol
- Gwasanaethau a chymorth sy'n ystyriol o drawma
- Dim drws anghywir / pobl yn cael eu cyfeirio at gymorth ble bynnag maen nhw'n cyflwyno eu hunain yn y system

- Hunanladdiad a hunan-niweidio fel mater iechyd y cyhoedd a / neu iechyd
- Pobl yn derbyn triniaeth/cymorth yn eu hiaith eu hunain

Cwestiwn 3: Grwpiau blaenoriaeth a risg uchel

Mae'r strategaeth yn nodi nifer o grwpiau blaenoriaeth a risg uchel.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Gwnaethom ofyn i chi a oeddech chi'n cytuno â'r grwpiau blaenoriaeth a risg uchel a nodwyd, a'r rhesymau dros eich ymateb.

Yr hyn ddywedoch chi

Mae'r strategaeth yn nodi grwpiau blaenoriaeth a grwpiau risg uchel. Ydych chi'n cytuno bod y rhain yn gywir?				
Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		18.60%	16
2	Cytuno		58.14%	50
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		13.95%	12
4	Anghytuno		8.14%	7
5	Anghytuno'n gryf		1.16%	1
			wedi'i ateb	86
			wedi'i hepgor	40

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Maent yn cyd-fynd â'r sylfaen dystiolaeth a phrofiad rhanddeiliaid

Thema gref o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd bod y grwpiau blaenoriaeth a risg uchel a nodwyd yn y strategaeth yn cyd-fynd â'r hyn mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am ble ddylai'r ffocws fod. Maent yn cyd-fynd â phrofiadau (a phrofiad bywyd) rhanddeiliaid ac yn tynnu sylw at sut mae rhai grwpiau'n fwy agored i niwed nag eraill.

At hynny, roedd yr ymatebion yn cydnabod y bydd nodi grwpiau blaenoriaeth a risg uchel yn rhoi ffocws ar gyfer cyflawni – yn ogystal ag atal hunanladdiad a hunan-niweidio ac ymyrraeth, gofal a chymorth effeithiol. Mae angen i'r strategaeth fod yn

seiliedig ar yr hyn mae'r dystiolaeth o'r RTSSS yn ei ddweud wrthym am y grwpiau oedran hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Grwpiau penodol yr ystyrir eu bod ar goll

Roedd ymatebion yn teimlo hefyd bod rhai grwpiau'n cael eu hystyried ar goll o'r rhestr bresennol o grwpiau blaenoriaeth a risg uchel. Roedd hyn yn cynnwys menywod a oedd yn mynd drwy'r menopos; rhieni sy'n disgwyl babi a rhieni newydd; pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig; a rhai galwedigaethau – gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau brys. Awgrymodd sawl ymateb grwpiau lle roeddent yn teimlo bod angen mwy o ffocws ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio. (Noder: rhoddodd sawl ymateb dystiolaeth fanwl ar gyfer cynnwys grwpiau penodol naill ai fel grŵp blaenoriaeth neu grŵp risg uchel. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio i ddiwygio asesiadau effaith ategol.)

Mae gormod o grwpiau blaenoriaeth a risg uchel

Yn wahanol i'r thema uchod, dywedodd eraill fod y rhestr bresennol o grwpiau blaenoriaeth a risg uchel yn llawer rhy hir; bod posibilrwydd o ddryswch; a bod diffyg eglurder ynghylch pa grwpiau fydd y strategaeth yn eu blaenoriaethu. Mae mwy o ffocws ar grwpiau risg uchel yn cymryd y ffocws oddi wrth eraill. Yn hytrach, dylid canolbwyntio ar gyffredinolïaeth gymesur. Hefyd, mae'r rhestr bresennol o grwpiau yn dal pawb ar ryw adeg yn eu bywydau o bosibl, felly mae'n dod yn ddiystyr.

Materion Allweddol Eraill

Nododd nifer o ymatebion, er eu bod yn cefnogi nodi grwpiau blaenoriaeth a risg uchel, eu bod yn tynnu sylw at faterion penodol y mae angen eu hystyried ymhellach. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

- **Cymorth ar gyfer nodi grwpiau blaenoriaeth a risg uchel, ond mae angen i'r strategaeth ddarparu mwy o eglurder ar sut y cawsant eu nodi:** Galwodd ymatebion am esboniad gwell o'r rhesymeg a'r dystiolaeth dros fod mewn grŵp blaenoriaeth neu risg uchel. Gwnaed galwadau penodol am well cyfeirio a chynnwys tablau tystiolaeth a data allweddol. Nododd rhai ymatebion fod yr ystadegau a ddefnyddiwyd i nodi'r grwpiau blaenoriaeth yn gamarweiniol ac yn ddryslud ac yn anghyson ar draws y grwpiau. Gwnaeth sawl ymateb sylwadau hefyd ar yr angen i esbonio'r gwahaniaethau rhwng grwpiau blaenoriaeth a risg uchel yn well, a rhoi ystyriaeth ofalus i'r iaith a ddefnyddir yn y strategaeth neu, fel arall, i fod â dim ond un disgrifydd grŵp.
- **Beth mae bod mewn grŵp blaenoriaeth neu risg uchel yn ei olygu:** Gwnaeth nifer o ymatebion sylwadau ar yr hyn mae cael eich nodi fel grŵp blaenoriaeth / grŵp risg uchel yn ei olygu yn ymarferol. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a fyddai'n golygu mwy o gymorth i grwpiau penodol, neu fwy o gyllid ar gyfer

gwasanaethau arbenigol (a phe bai rhywun yn aelod o fwy nag un o'r grwpiau, a fyddai hynny'n golygu y byddai ei siawns o gael cymorth yn uwch).

- **Strategaeth ddeng mlynedd yw hon – gall y grwpiau blaenoriaeth a risg uchel newid:** Nododd yr ymatebion y gallai grwpiau newydd ddod i'r amlwg, ac nid oedd yn glir sut y byddai hyn yn cael ei ystyried. Tynnodd ymatebion sylw at yr angen am fonitro parhaus a diweddarau'r strategaeth i adlewyrchu tystiolaeth newydd mewn perthynas â pha grwpiau sy'n cael eu nodi fel grwpiau blaenoriaeth a risg uchel – ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio.
- **Beth am bobl nad ydynt mewn grŵp blaenoriaeth neu risg uchel:** Mae'n bwysig cydnabod y gall unrhyw un gael teimladau hunanladdol. Ni ddylai cymorth ar gyfer grwpiau blaenoriaeth a risg uchel fod ar draul gallu unrhyw un i gael gafael ar gymorth. Mae canolbwyntio ar restr o grwpiau yn arwain at risg y bydd grwpiau eraill yn cael eu colli. Cyfeiriwyd yn benodol at bwysigrwydd cynnwys carfannau.
- **Mae angen mwy o gymorth ar bobl sy'n ceisio marw drwy hunanladdiad:** Un thema bwysig o'r ymgynghoriad oedd bod gormod o ffocws ar gefnogi'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad a dim digon o ffocws ar gefnogi'r rhai sydd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad - pobl fu bron â chyflawni hunanladdiad neu a fyddai wedi marw heb ymyrraeth. Ystyrir hyn ymhellach mewn perthynas ag amcan 5. Ychwanegodd ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru at hyn gyda'r angen am fwy o gymorth i deuluoedd pobl ifanc sy'n hunan-niweidio neu'n ceisio cyflawni hunanladdiad.
- **Nid yw croestoriadedd a ffactorau risg lluosog wedi cael eu hystyried:** Thema bwysig arall oedd bod y strategaeth yn methu â chydabod croestoriadedd, a hefyd yn methu â mynd i'r afael yn ddigonol â hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith y rhai sy'n profi ffactorau risg lluosog. Nodwyd bod y grwpiau blaenoriaeth a risg uchel wedi'u rhestru ar wahân – ond bod “unigolion yn aelod o sawl un o'r rhain yn aml, sy'n ychwanegu at gymhlethdod a'r angen am ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn” (Rhwydweithiau a Fforymau Rhanbarthol). Yn y pen draw, mae hunanladdiad yn gymhleth ac anaml y bydd un achos unigol.
- **Potensial i gynyddu stigma a chynyddu risg:** Mynegwyd pryder penodol mewn ymatebion ynghylch y potensial i restr o grwpiau blaenoriaeth a risg uchel gynyddu labelu a stigma.

Rhaid i'r strategaeth fod yn ofalus i beidio â stigmatiddio'r rhai sydd wedi'u nodi fel risg uchel ymhellach. Efallai y bydd llawer o bobl yn perthyn i ben uchaf categori ac yn cael eu hystyried yn bobl risg uwch ond heb feddwl am hunanladdiad neu hunan-niweidio. Mae pryder pellach y gallai pobl sy'n bodloni'r

meini prawf a nodir gan y strategaeth fod yn amharod i ofyn am help os ydynt yn cael eu hystyried yn risg uchel o hunanladdiad. (Rhwydweithiau a Fforymau Rhanbarthol)

Roedd stigma yn bwnc a gododd dro ar ôl tro yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru lle buont yn siarad am yr angen i leihau'r stigma ynghylch gofyn am gymorth ac adrodd am bryderon am eraill. Weithiau mae hunan-niweidio'n cael ei ystyried fel ymddygiad mae pobl ifanc yn cael eu cosbi amdano a'u bod yn ofni'r canlyniadau, felly efallai y byddant yn llai tebygol o roi gwybod amdano.

Cwestiwn 4: Eich barn ar Amcan 1

Sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, gan bwysu ar ystod o ddata, ymchwil a gwybodaeth; a datblygu seilwaith cadarn i hwyluso'r gwaith o ddadansoddi a rhannu gwybodaeth i ganolbwyntio adnoddau, llunio polisiau a sbarduno gweithredu.

Beth mae'r amcan hwn yn ei olygu

Gall gwybodaeth a thystiolaeth amrywiol lywio camau gweithredu i atal, rhagweld ac ymateb i hunanladdiad a hunan-niwed – gan gynnwys gwybodaeth, tueddiadau a chlystyrau lleol. Rydym wedi gwneud cynnydd da yng Nghymru, er enghraifft, wrth weithredu'r System Arolygu Hunanladdiad Tybiedig Amser Real, sy'n darparu data mwy amserol i lywio'r ymateb i hunanladdiad ac i gefnogi camau ataliol.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd, nodwyd angen am ddata, tystiolaeth a gwybodaeth fwy cadarn mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru i lywio polisiau a gwasanaethau. Mae angen dull mwy systematig hefyd i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o ymchwil, tystiolaeth a gwyliadwriaeth i gefnogi gweithredu traws-sector yng Nghymru a monitro effaith polisi ac ymyriadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau bod seilwaith ar gael i gasglu gwybodaeth gan wasanaethau fel y GIG a sefydliadau'r trydydd sector.

Sut y byddwn yn gwneud hyn

Is-amcan 1a: Datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru er mwyn deall yn well yr achosion, y grwpiau mwyaf agored i niwed, yr effaith a'r ymyriadau a'r ymatebion mwyaf effeithiol.






Is-amcan 1b: Datblygu strwythurau a phrosesau mwy systematig ar gyfer dadansoddi, cyfuno a chyflwyno data ac ymchwil sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed, o Gymru, ledled y DU ac yn ehangach i lywio polisi ac ymarfer.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi





Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r amcan hwn a pham. Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r is-amcanion a pham. Gwnaethon ni ofyn i chi hefyd beth y credwch y dylid ei gynnwys yn ein Cynllun Cyflawni fel y gallem gyflawni'r amcan.

Yr hyn ddywedoch chi

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol. Amcan 1: Sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, gan bwysu ar ystod o ddata, ymchwil a gwybodaeth; a datblygu seilwaith cadarn i hwyluso'r gwaith o ddadansoddi a rhannu gwybodaeth i ganolbwyntio adnoddau, llunio polisiau a sbarduno gweithredu.

Dewisiadau Ateb		Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf 	52.33%	45
2	Cytuno 	37.21%	32
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 	5.81%	5
4	Anghytuno 	3.49%	3
5	Anghytuno'n gryf 	1.16%	1
		wedi'i ateb	86
		wedi'i hepgor	40

Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 1. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		33.80%	24
2	Cytuno		50.70%	36
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		12.68%	9
4	Anghytuno		1.41%	1
5	Anghytuno'n gryf		1.41%	1
			wedi'i ateb	71
			wedi'i hepgor	55

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Defnyddio ac adeiladu ar ddata a thystiolaeth sydd eisoes ar gael

Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd defnyddio ac adeiladu ar y data a'r dystiolaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Er enghraifft, adolygu'r sylfaen dystiolaeth bresennol i nodi bylchau ymchwil ac adeiladu ar blatfform casglu data RTSSS i gasglu data ychwanegol ar achosion o hunan-niweidio. (Tynnwyd sylw at hyn hefyd mewn ymatebion yn rhoi sylwadau ar grwpiau blaenoriaeth a risg uchel y strategaeth.)

Enwodd ymatebwyr nifer o ffynonellau data i'w cynnwys mewn ystorfa ganolog. Roedd y rhain yn cynnwys: data derbyniadau i'r ysbyty, gan gynnwys nifer y bobl sy'n cyflwyno gyda iechyd meddwl gwael; data gan wasanaethau arbenigol; data ar adrannau damweiniau ac achosion brys; data GIG 111#2; data'r heddlu; a data a gasglwyd gan sefydliadau'r trydydd sector.

Parhau i gasglu data a thystiolaeth drwy gydol oes y strategaeth

Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd parhau i gasglu data a thystiolaeth newydd drwy gydol oes y strategaeth hefyd i sicrhau bod yr wybodaeth a ddefnyddir i ddatblygu polisiau ac arferion yn gyfredol.

Pwysigrwydd strwythurau systematig ar gyfer casglu data a thystiolaeth

Roedd ymatebion yn galw am un system gadarn, hawdd ei defnyddio ar gyfer cofnodi, dadansoddi a lledaenu data a thystiolaeth. Roedd yr ymatebion yn teimlo'n gryf fod angen sefydlu strwythurau systematig i sicrhau mwy o gydweithio, cyd-gynhyrchu a chysondeb ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Soniodd ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru am ddefnyddio data effaith i ddangos sut y gall cyflwyno Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaethol wneud gwahaniaeth o ran atal ac annog mwy o weithwyr proffesiynol i'w cyflwyno.

Heriau

Soniodd yr ymatebion am nifer o heriau o ran ceisio sefydlu strwythurau a phrosesau mwy systematig ar gyfer casglu a rhannu data ac ymchwil. Tynnodd rhai ymatebion sylw at amharodrydd gan rai sefydliadau i rannu gwybodaeth a data. Gwnaeth eraill sylwadau ar bolisiâu preifatrwydd data ac mae'r strwythurau sydd ar waith ar hyn o bryd yn gwneud rhannu data'n anodd. Dywedodd ymatebwyr hefyd, hyd yn oed pan fydd data a thystiolaeth yn cael eu casglu a'u rhannu, y gallai'r canfyddiadau fod yn rhagfarnllyd gan mai dim ond y rhai sy'n gofyn am help/yn cael mynediad at wasanaethau y byddant yn eu hadlewyrchu.

Byddem yn eich cyngori'n gryf i feddwl am y seilwaith a sut y caiff ei weithredu. Yn aml mae rhannu gwybodaeth yn cael ei rwystro oherwydd polisiâu preifatrwydd data a gweithio mewn seilos ar draws gwasanaethau. Mae dulliau presennol o rannu gwybodaeth a data'n parhau i fod yn broblem fawr rhwng gofal cymdeithasol, iechyd a chymunedol, felly mae angen aiffeddwl pa strategaethau sydd angen eu rhoi ar waith i wella effeithlonrwydd a chanlyniadau. (Rhwydweithiau a Fforymau Rhanbarthol)

Gwella ansawdd, amseroldeb a chymhwysedd data/tystiolaeth

Yn dilyn ymlaen o'r thema flaenorol, nododd yr ymatebion nifer o ffyrdd o wella ansawdd ac amseroldeb data. Dylai cynlluniau cyflawni ganolbwyntio ar gasglu data ansoddol a meintiol penodol i Gymru (a data o wasanaethau a gomisiynir yng Nghymru) ar lefel leol a rhanbarthol a blaenoriaethu casglu data cydraddoldeb.

Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylai fod metrigau casglu data clir, gan gynnwys data llinell sylfaen i ddangos llwyddiant, a llinellau amser cyhoeddi tryloyw. Dylai data fod yn hygyrch ac yn ddefnyddiol; ac mae angen ei adolygu'n rheolaidd.

Ymgysylltu, rhannu gwybodaeth a chydweithio

Roedd pwyslais cryf ar ddatblygu cysylltiadau ymgysylltu traws-sector a gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu blaenoriaethau ymchwil a chael gafael ar ddata. Yn benodol, bydd yn allweddol cydweithio ag academyddion a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu set ddata gadarn a chynnal prosiectau ymchwil cydweithredol a gwerthusiadau o raglenni a pholisiâu atal hunanladdiad.

Dylai ymchwil ganolbwyntio ar ganlyniadau, er enghraifft, i lywio darpariaeth a gwasanaethau, ac arwain at arweiniad ac atebion ymarferol. Dylid monitro'r data a'r

dystiolaeth a gesglir yn rheolaidd i ymateb yn gyflym i dueddiadau a dylid eu defnyddio i werthuso effeithiolrwydd polisiâu/ymyriadau ac asesu effaith. Dywedodd eraill fod croeso i ffocws ar ymchwil a data cyn belled nad oes gormod o amser yn cael ei ddyrannu iddo, ac nad yw cefnogi camau gweithredu a chynlluniau cyflawni'n disodli ymyrryd a chefnogi'r rhai mewn angen. Yn olaf, tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith, er y gallai data a thystiolaeth daflu goleuni ar y cymorth cywir i'w ddarparu i bobl mewn angen, mae'n bwysig cadw'r unigolyn wrth wraidd y cymorth.

Meysydd pwnc ychwanegol lle mae angen mwy o dystiolaeth

Tynnodd nifer o ymatebion sylw at feysydd pwnc o bwys, yn enwedig meysydd lle mae angen mwy o ddata a thystiolaeth. Roedd y meysydd pwnc hyn yn cynnwys: gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau profedigaeth ar gyfer hunanladdiad; datblygu a/neu adnabod, gweithredu a gwerthuso ymyriadau ataliol; cwmpasu'n llawn y cymorth sydd ar gael i nodi bylchau yn narpariaeth gwasanaethau; archwilio'r rhesymau dros beidio â gofyn am gymorth/derbyn cymorth; effeithiolrwydd ffynonellau cymorth anffurfiol; a deall yr hyn sy'n gweithio o ran cefnogi gwahanol gymunedau a grwpiau demograffig. Nododd nifer o ymatebwyr yr angen i ddeall achosion sylfaenol hunan-niweidio a hunanladdiad hefyd, gan gynnwys nodi ffactorau demograffig-gymdeithasol dylanwadol; a gwell dealltwriaeth o feddyliau a theimladau pobl wrth hunan-niweidio a/neu ymddwyn yn hunanladdol.

laith

Tynnodd nifer fach o ymatebion sylw at bryderon am yr iaith a ddefnyddir yn yr amcan hwn. Gwnaed awgrym i symud i ffwrdd o fodel diffyg mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio i fodel sy'n seiliedig ar gryfder, gyda phwyslais ar atal.

Cymorth amserol

Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amcan hwn, daeth thema i'r amlwg ynghylch yr angen am gymorth amserol, wyneb yn wyneb. Yn benodol, mae angen gwasanaethau arbenigol ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan hunanladdiad, plant a phobl ifanc sy'n hunan-niweidio a'u teuluoedd sy'n eu cefnogi. Dylai'r cymorth fod yn hyblyg ac ar adeg pan fo'i angen.

Daeth y thema hon i'r amlwg yn gryf yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru, gyda phlant a phobl ifanc yn nodi rhestrau aros hir yn eu hatal rhag cael help ar yr adeg iawn. Yn ogystal, siaradodd pobl ifanc am yr angen am gymorth y tu allan i oriau arferol a bod ag opsiynau ar gyfer gwahanol fathau o gymorth yn ystod argyfwng ac mewn gofod atal neu gamu i lawr.

Mae ymddangosiad y thema hon yn tynnu sylw at ymarfer casglu dystiolaeth pwysig i nodi ymyriadau effeithiol, yn gyntaf i gefnogi'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad a'r rhai sy'n hunan-niweidio ac, yn ail, i nodi'r model darparu gwasanaethau gorau posibl.

Cwestiwn 5: Eich barn ar Amcan 2

Cydgysylltu gweithredu ar draws y Llywodraeth ac ar draws sectorau sydd, ar y cyd, yn mynd i'r afael â sbardunau hunanladdiad, ac yn lleihau mynediad at ddulliau hunanladdiad.

Beth mae'r amcan hwn yn ei olygu

Drwy gyflawni Siarad â Fi 2, rydym wedi sefydlu gwaith trawslywodraethol a thraws-sector effeithiol i atal hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru. Atgyfnerthwyd hyn drwy weithredu'r Bwrdd Strategol Trawslywodraethol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed - a fydd yn esblygu i fod yn Fwrdd Rhaglen Genedlaethol Hunanladdiad a Hunan-niwed. Ein nod yw adeiladu ar y gwaith hwn i sicrhau bod meysydd polisi perthnasol ar draws Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'i gilydd, gyda gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a sefydliadau'r trydydd sector i atal hunanladdiad a hunan-niwed. Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar sbardunau presennol penodol neu sbardunau datblygol hunanladdiad ac ar gyfyngu mynediad at ddulliau o gyflawni hunanladdiad, ond mae'n seiliedig ar waith partneriaeth trawslywodraethol ac amlsector a'r camau ataliol a nodir yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol. Mae'r gwaith hwn yn cydnabod y cysylltiad rhwng anfanteision economaidd-gymdeithasol a'r risg o hunanladdiad a hunan-niwed.

Sut y byddwn yn gwneud hyn

Is-amcan 2a: Cyflawni'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol i wella iechyd meddwl a llesiant drwy ddull ataliol a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd meddwl.

Is-amcan 2b: Sicrhau dealltwriaeth glir a pherchnogaeth o weithredu trawslywodraethol a thraws-sector ehangach i fynd i'r afael â sbardunau allweddol hunanladdiad a sefydlu rhaglenni gwaith i gryfhau a chydgyssylltu mesurau atal.

Is-amcan 2c: Gwellu sut rydym yn ymateb i, ac yn rheoli, lleoliadau sy'n peri pryder er mwyn galluogi gweithredu lleol ar sail wybodus, gyson a seiliedig ar dystiolaeth.






Is-amcan 2d: Nodi ffyrdd o wella diogelwch ar-lein a chyfyngu ar annog a chynorthwyo hunan-niwed drwy ddarparu deddfwriaeth a chyfleoedd polisi newydd.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi






Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r amcan hwn a pham. Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r is-amcanion a pham. Gwnaethon ni ofyn i chi hefyd beth y credwch y dylid ei gynnwys yn ein Cynllun Cyflawni fel y gallem gyflawni'r amcan.

Yr hyn ddywedoch chi

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol. Amcan 2: Cydgysylltu gweithredu ar draws y Llywodraeth ac ar draws sectorau sydd, ar y cyd, yn mynd i'r afael â sbardunau hunanladdiad, ac yn lleihau mynediad at ddulliau hunanladdiad.

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		41.67%	35
2	Cytuno		44.05%	37
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		8.33%	7
4	Anghytuno		4.76%	4
5	Anghytuno'n gryf		1.19%	1
			wedi'i ateb	84
			wedi'i hepgor	42

Awgrymwyd pedwar is-amcan i gyflawni amcan 2. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		25.71%	18
2	Cytuno		61.43%	43
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		10.00%	7
4	Anghytuno		1.43%	1
5	Anghytuno'n gryf		1.43%	1
			wedi'i ateb	70
			wedi'i hepgor	56

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae gweithredu ar draws y Llywodraeth yn cynnwys Llywodraeth y DU

Dywedodd nifer o ymatebion y dylai “gweithredu ar draws y Llywodraeth” gynnwys gweithredu gan Lywodraeth y DU – ac y dylid gwneud hyn yn glir yn yr amcan. Tynnwyd sylw hefyd at gyfleoedd i rannu a dysgu arfer da ar draws gwledydd y DU, Ewrop ac mewn mannau eraill. Roedd galwadau hefyd am gydweithio â Llywodraeth y DU mewn perthynas â meysydd sydd heb eu datganoli, er enghraifft, partneriaid cyfiawnder troseddol ar hunanladdiadau carcharorion (Y Trydydd Sector).

Angen mwy o eglurder

Nid oedd pob ymateb yn gefnogol i ffocws yr amcan hwn a'r is-amcanion. Roedd rhai yn teimlo bod hwn yn amcan cymhleth, a bod gweithio ar draws sectorau'n her barhaus sylweddol. Roedd galw am ddiffiniadau clir o'r hyn a olygir gan weithredu ar draws llywodraethau ac ar draws sectorau. Dywedodd rhai ymatebion nad oedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn hygyrch a bod defnydd anghyson o'r termau hunanladdiad a hunan-niweidio. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch y sail dystiolaeth ar leihau mynediad i ddulliau o gyflawni hunanladdiad, gydag un ymateb yn nodi “nad oes digon o ymchwil i wybod a yw'n gwneud dim mwy na gwneud i bobl droi at opsiynau eraill” (Dienw).

Cyflyrau iechyd corfforol a chronig a chysylltiadau â hunanladdiad a hunan-niweidio

Roedd rhai ymatebion yn teimlo bod amcan 2 wedi methu ag ystyried y rhai â chyflyrau iechyd corfforol a bod yr amcan hwn wedi esgeuluso ystyried effaith rhoi'r gorau i feddyginiaeth / triniaeth sy'n cynnal bywyd hefyd – fel modd o hunan-niweidio neu farw drwy hunanladdiad.

Cysylltiadau â strategaethau a pholisïau ehangach

Er bod y cysylltiadau â'r strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn cael eu croesawu, dywedodd rhai ymatebion fod nifer sylweddol o bolisïau a strategaethau ar waith eisoes (ac wedi'u nodi ar ddechrau'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio) ac y gallai pobl deimlo eu bod yn cael eu llethu – a allai yn ei dro rwystro camau gweithredu ystyrllon a realistig. Ond roedd ymatebion yn nodi hefyd bod cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn rhwystr enfawr – yn enwedig i grwpiau agored i niwed.

Cwestiwn 6: Eich barn ar Amcan 3

Darparu camau atal, ymyrraeth a chymorth cyflym ac effeithiol i'r grwpiau hynny mewn cymdeithas sydd fwyaf agored i hunanladdiad a hunan-niweidio drwy'r lleoliadau y maent yn ymwneud â nhw fwyaf.

Beth mae'r amcan hwn yn ei olygu

Gan ddatblygu ar ein gwaith i gyflawni'r weledigaeth yn Siarad â Fi 2, nod yr amcan hwn yw sicrhau ein bod yn darparu dull wedi'i deilwra a'i dargedu i gefnogi'r grwpiau hynny sydd fwyaf agored i hunanladdiad a hunan-niwed. Ei nod hefyd yw sicrhau ein bod yn nodi ac yn darparu cymorth priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y lleoliadau lle mae unigolion agored i niwed yn cyflwyno eu hunain. Byddwn yn gwneud hyn drwy gael ein tywys gan ymchwil a thystiolaeth i nodi grwpiau a lleoliadau, a byddwn yn datblygu rhaglenni gwaith i gefnogi unigolion a sefydliadau.

Sut y byddwn yn gwneud hyn

Is-amcan 3a: Datblygu gallu ac ymateb mewn lleoliadau allweddol lle gallai'r rhai mwyaf agored i hunan-niweidio a/neu hunanladdiad gyflwyno eu hunain.

Is-amcan 3b: Sicrhau bod yr holl bolisiâu, camau gweithredu, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad yng Nghymru yn rhoi'r cyfle i bobl gael mynediad at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis a'u bod yn gyson â Safonau'r Gymraeg a [Cymraeg 2050](#), sy'n nodi ein dull hirdymor o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg.





Is-amcan 3c: Sicrhau bod yr holl bolisiâu, camau gweithredu, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad yng Nghymru yn parchu ac yn gwerthfawrogi hawliau plant.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi






Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r amcan hwn a pham. Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r is-amcanion a pham. Gwnaethon ofyn i chi hefyd beth y credwch y dylid ei gynnwys yn ein Cynllun Cyflawni fel y gallem gyflawni'r amcan.

Yr hyn ddywedoch chi

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol. Amcan 3: Darparu atal, ymyrraeth a chymorth cyflym ac effeithiol i'r grwpiau hynny mewn cymdeithas sydd fwyaf agored i hunanladdiad a hunan-niwed drwy'r lleoliadau y maent yn ymgysylltu â nhw fwyaf.

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		47.13%	41
2	Cytuno		42.53%	37
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		6.90%	6
4	Anghytuno		0.00%	0
5	Anghytuno'n gryf		3.45%	3
			wedi'i ateb	87
			wedi'i hepgor	39

Awgrymwyd tri is-amcan i gyflawni amcan 3. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		21.33%	16
2	Cytuno		57.33%	43
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		17.33%	13
4	Anghytuno		2.67%	2
5	Anghytuno'n gryf		1.33%	1
			wedi'i ateb	75
			wedi'i hepgor	51

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Dylid nodi'r is-amcanion ar hawliau plant a'r Gymraeg fel egwyddorion craidd

Er bod cefnogaeth i is-amcan 3b a 3c, cwestiynodd nifer o ymatebion a ddylid eu nodi fel egwyddorion craidd ar gyfer y strategaeth – yn hytrach na bod yn benodol i'r amcan hwn.

Pryderon ynghylch y rhai nad ydynt yn ymwneud â'r lleoliadau a'r gwasanaethau a restrir ar hyn o bryd

Er bod cefnogaeth gref a chytundeb ynghylch lleoliadau lle mae pobl yn ymgysylltu â bod yn ddull cefnogi effeithiol ar hyn o bryd, roedd nifer uchel o ymatebion yn pryderu am y rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn y lleoliadau a enwir, neu unrhyw wasanaethau o gwbl – gan alw am i'r amcan gael ei “ehangu i archwilio diffiniad ehangach o'r lleoliadau y maent yn ymgysylltu fwyaf ynddynt” (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig).

Gofynnodd llawer o ymatebion am eglurhad ar yr hyn y byddai hyn yn ei olygu i'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu yn y lleoliadau a restrir ar hyn o bryd, a'r cysylltiadau ag ynysu cymdeithasol ymhlith grwpiau fel plant a phobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol; cymunedau ffermio; cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a phobl niwrowahanol.

Cynigiodd nifer o'r ymatebwyr lleoliadau ychwanegol ac amgen hefyd i'r rhai a amlygir o dan amcan 3, megis mannau cymunedol (e.e. llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac addoldai) a'r rhai a ddarperir gan y trydydd sector; tai cymdeithasol neu wasanaethau cymorth i bobl ddigartref; colegau a phrifysgolion; y system cyfiawnder troseddol; lleoliadau gofal iechyd eilaidd; lleoliadau gofal cymdeithasol; lleoliadau sy'n gysylltiedig â phrifyrdd a thrafnidiaeth; sefydliadau trydydd sector sy'n darparu cymorth ynghylch tai / digartrefedd, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, materion mewnfudo a chyngor cyfreithiol; a lleoliadau iechyd meddwl amenedigol. Awgrymodd nifer uchel o ymatebion y dylid cynnwys lleoliadau ar-lein hefyd.

Siaradodd plant a phobl ifanc yn benodol am y lleoliadau allweddol ar gyfer atal a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys: cartref, ysgolion, clybiau ieuenctid a chymunedol, chwaraeon, prifysgolion a lleoliadau hamdden (ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru).

Grwpiau risg uchel

Mae'r ymatebion yn nodi sylwadau ac awgrymiadau hefyd ynghylch y grwpiau agored i niwed a restrir o dan amcan 3 – ac mae trafodaeth fanylach ar hyn i'w gweld yn ein dadansoddiad o ymatebion mewn perthynas â grwpiau blaenoriaeth a risg uchel. Roedd materion allweddol a godwyd mewn perthynas â grwpiau risg uchel ac amcan 3 yn cynnwys galwadau am fwy o ffocws ar groestoriadedd; yr angen i wasanaethau ganolbwyntio ar gleifion; pryderon ynghylch y ffocws ar ormod o grwpiau risg; a chwestiynau ynghylch a fyddai pobl ddim yn cael eu cefnogi os nad oeddent yn perthyn i'r grwpiau risg uchel.

Sicrhau cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac anghenion

Roedd llawer o ymatebion yn ystyried pwysigrwydd y ffaith bod cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'i arwain gan anghenion – er mwyn bod yn effeithiol a chaniatáu i unigolion gael mynediad at y gofal a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Amrywiaeth o gymorth – ymyrraeth gyflym, atal hirdymor a chynnwys ôl-ymyrraeth

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau hefyd ar gyflymder ymyrraeth ac atal. Er bod cytundeb y dylai ymyrraeth fod yn gyflym (er bod galwadau hefyd am i hyn gael ei ddiffinio'n well) – tynnodd ymatebion sylw hefyd at y ffaith bod atal yn allweddol, ac y dylai hyn fod yn hirdymor ac wedi'i wreiddio mewn gwasanaethau.

Siaradodd cyfranogwyr yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru am fynd i'r afael â rhestrau aros fel blaenoriaeth, yn ogystal â chynyddu'r opsiynau ar gyfer cymorth.

Mae rhestr aros CAMHS pobl ifanc 16-18 oed yn rhy hir; felly yn lle ychwanegu person ifanc at y rhestr aros, bydd y gweithwyr proffesiynol yn gadael iddynt aros am atgyfeiriad oedolyn (a fyddai'n digwydd cyn iddynt ddod oddi ar y rhestr aros). O ganlyniad, mae bwlch o ddwy flynedd yn y ddarpariaeth, ac mae llawer o blant yn colli cymorth a darpariaeth, sef yr amser gwaethaf mewn bywyd i gael bwlch (gan ei fod mor ddryslyd, gyda gadael yr ysgol, coleg yn wahanol iawn, diffyg rhwyd ddiogelwch neu amserlen strwythuredig ac ati). (Lab Cydgyhyrchu Cymru)

Roedd ymatebion yn awgrymu hefyd y dylid cynnwys camau ôl-ymyrraeth yn yr amcan hefyd.

Cydweithio a gwaith cydgysylltiedig

Nododd y mwyafrif o ymatebion, er mwyn cyflawni'r amcan a'r is-amcanion, y dylai'r cynllun cyflawni gynnwys cam gweithredu penodol yn ymwneud â gwasanaethau'n cydweithio i gefnogi'r rhai sydd mewn angen.

Nododd nifer o ymatebwyr effaith sefydliadau'r trydydd sector a chymunedol yn y maes hwn ar hyn o bryd hefyd a gofynnwyd iddynt ymrwymo i ymgysylltu a gweithio gyda'r grwpiau hyn yn y cynllun cyflawni.

Cytunwyd bod grwpiau ac elusennau llai yn cael effaith ddofn ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol pobl, felly dylai'r strategaeth ganolbwyntio mwy ar gydnabod ac annog grwpiau lleol i ailgysylltu cymunedau. Mae pobl yn teimlo ymdeimlad o berthyn drwy grwpiau lleol a all helpu i liniaru'r potensial am feddyliau a syniadau hunanladdol. O ganlyniad, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod sefydliadau lleol ar lawr gwlad yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu ar gyfer yr amcan hwn. (Rhwydweithiau a Fforymau Rhanbarthol)

Ymarfer mapio a chamau gweithredu a arweinir gan dystiolaeth

Er mwyn nodi'r sefyllfa bresennol, adnoddau presennol a chynllunio camau gweithredu yn y dyfodol, awgrymodd rhai ymatebion y dylid cynnal ymarfer mapio. Gofynnodd nifer o ymatebion hefyd am i gamau gweithredu gael eu harwain gan

dystiolaeth er mwyn bod yn gadarn, ac y dylid gwella dulliau casglu a chyflwyno data.

Rôl cefnogaeth gan gymheiriaid

Nododd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd cefnogaeth gan gymheiriaid gan alw am i hyn gael ei gydnabod yn y strategaeth. Siaradodd plant a phobl ifanc am effeithiolrwydd cynlluniau cefnogaeth gan gymheiriaid mewn ysgolion (ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru).

Ffocws ar-lein a digidol

Drwy gydol yr ymatebion, roedd cydnabyddiaeth o bryder ynghylch niwed ar-lein, y ffaith bod y gofod ar-lein yn lleoliad allweddol a phlatformau digidol yn darparu mynediad at wasanaethau yn amlwg. Derbyniwyd ceisiadau i greu plattformau digidol i gefnogi unigolion, yn enwedig plant a phobl ifanc.

Roedd cydnabyddiaeth hefyd fod cysylltiad pwysig gyda'r ffocws ar hawliau plant a diogelwch ar-lein.

Cwestiwn 7: Eich barn ar Amcan 4

Cynyddu sgiliau, ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau a allai ddod i gysylltiad â phobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio.

Beth mae'r amcan hwn yn ei olygu

Mae'r amcan hwn yn adeiladu ar y dull wedi'i dargedu a nodwyd yn Amcan 3 i ddarparu gwybodaeth lefel poblogaeth gyda'r nod o gefnogi unigolion, grwpiau a sefydliadau i ddeall eu rôl o ran atal hunanladdiad a hunan-niwed. Mae'n ceisio gwella hyder a sgiliau unigolion hefyd i adnabod pobl sy'n wynebu risg a darparu cymorth priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Sut y byddwn yn gwneud hyn

Is-amcan 4a: Nodi cyfleoedd i wella'r cynnig cyffredinol o hyfforddiant a chymorth.





Is-amcan 4b: Sefydlu parhad a chysylltiad rhwng gwahanol wasanaethau sy'n ymateb i bobl sydd mewn trallod, gan sicrhau bod dulliau cyson yn cael eu mabwysiadu, gyda rhaglenni dysgu a datblygu a rennir ar gyfer trinwyr galwadau ac ymatebwyr rheng flaen.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi





Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r amcan hwn a pham. Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r is-amcanion a pham. Gwnaethon ofyn i chi hefyd beth y credwch y dylid ei gynnwys yn ein Cynllun Cyflawni fel y gallem gyflawni'r amcan.

Yr hyn ddywedoch chi

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol. Amcan 4: Cynyddu sgiliau, ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau a allai ddod i gysylltiad â phobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio.

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		65.12%	56
2	Cytuno		31.40%	27
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		2.33%	2
4	Anghytuno		1.16%	1
5	Anghytuno'n gryf		0.00%	0
			wedi'i ateb	86
			wedi'i hepgor	40

Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 4. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		43.06%	31
2	Cytuno		48.61%	35
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		6.94%	5
4	Anghytuno		1.39%	1
5	Anghytuno'n gryf		0.00%	0
			wedi'i ateb	72
			wedi'i hepgor	54

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae gan bawb gyfraniad i'w wneud

Nododd nifer o ymatebion fod yr amcan hwn yn allweddol i lwyddiant y strategaeth o ran atal hunanladdiad a hunan-niweidio a lleihau stigma – ac mae'n atgyfnerthu'r egwyddor bod hunanladdiad a hunan-niweidio yn fusnes i bawb hefyd. Mae'r ddau is-amcan yn “darparu'r blociau adeiladu i ffurfio ymateb gwasanaeth cynhwysfawr i atal hunanladdiad a hunan-niweidio” (Comisiynwyr). Bydd hyfforddiant yn helpu hefyd i sicrhau bod gwasanaethau tosturiol, sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n ystyriol o drama yn cael eu darparu, ac yn cefnogi'r egwyddor “dim drws anghywir” hefyd.

Roedd consensws cyffredinol ynghylch pwysigrwydd bod pawb yn gallu adnabod yr arwyddion sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio a sicrhau eu bod yn meddu ar hyfforddiant perthnasol a chymesur i allu cynnig cymorth i'r rhai sydd mewn angen. Roedd cydnabyddiaeth benodol yn yr ymatebion nad yw pobl mewn argyfwng yn estyn allan at wasanaethau argyfwng bob amser, felly mae angen i ni ddarparu'r cymorth lle mae ei angen, ac y gallai hyn fod mewn adran achosion brys, meddygfa meddyg teulu, man gwaith, campfa neu ganolfan waith. Thema bwysig arall oedd y dylai hyfforddiant fod yn orfodol i rai grwpiau a bod pobl eisiau gweld ymrwymadau gan wasanaethau i gyflawni'r amcan hwn.

Nododd yr ymatebion hefyd y dylai is-amcan 4b gydnabod grwpiau a gwasanaethau eraill fel rhai sy'n cyfrannu at yr amcan hwn, ac nid dim ond cyfeirio at y rhai sy'n trin

galwadau ac ymatebwyr rheng flaen. Er enghraifft, y gwasanaethau brys a gweithwyr cymorth profedigaeth.

Siaradodd plant a phobl ifanc am bwysigrwydd gwasanaethau eraill yn cael hyfforddiant iechyd meddwl a hunanladdiad a hunan-niweidio. Buont yn siarad am yr angen i'r heddlu ac adrannau damweiniau ac achosion brys fod â sgiliau gwell i ddeall ac ymateb i bobl ifanc mewn argyfwng (ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru).

Mae llawer o arfer da y gallwn ddysgu ohono a chyfleoedd i gydgrynhoi

Roedd yr ymatebion yn gefnogol i gynigion i wella'r cynnig hyfforddiant, yn enwedig o ran nodi grwpiau risg a chynnig cymorth pryd a ble mae ei angen. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at gyfoeth o waith da a oedd eisoes yn digwydd o ran hyfforddiant a chymorth, gyda llawer yn awgrymu y dylid cynnal ymarfer mapio i ddeall beth sydd eisoes ar gael, dysgu o arfer gorau a, lle bo modd, cydgrynhoi'n adnodd i bawb.

Cyfeiriwyd yn benodol at bwysigrwydd cymhwyso'r dysgu ynghylch cynyddu sgiliau, ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau – sydd eisoes wedi digwydd mewn sectorau eraill.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu hefyd y dylai ffocws is-amcan 4a fod ar ddarparu hyfforddiant ac nid “gwella'r” cynnig. Cafwyd ymatebion hefyd a oedd yn nodi sectorau penodol lle mae angen hyfforddiant.

Roedd cyfranogwyr yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru'n glir bod angen i hyfforddiant gwmpasu sut i siarad â phlant a phobl ifanc am hunanladdiad a hunan-niweidio. Gan gynnwys cael eich arwain gan berson ifanc, peidio â bod yn gyhuddol a “deall hunan-niweidio fel strategaeth ymdopi, nid dewis”.

Mae angen i hyfforddiant fod yn gyson ac yn berthnasol i wahanol leoliadau a lefel awdurdod

Tynnodd yr ymatebion sylw at y ffaith bod angen ystyried sut mae pecynnau hyfforddi'n gytbwys o ran bod yn gyson, a hefyd wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd â gwahanol rolau a chyfrifoldebau, lefelau awdurdod ac anghenion pobl. Gwnaed awgrym yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru i greu fframwaith o hyfforddiant haenog (tebyg i Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma) ar gyfer ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio.

Mae angen i hyfforddiant ystyried anghenion cymhleth/sy'n cyd-ddigwydd

Tynnwyd sylw at her arall o ran ystyried materion sy'n cyd-ddigwydd megis defnyddio sylweddau a sut y gallwn roi'r wybodaeth a'r adnoddau i bobl reoli'r cymhlethdodau hyn - gydag adnoddau i'w cyfeirio at wasanaethau perthnasol. Nodwyd hyn gan blant a phobl ifanc hefyd wrth gyfeirio at ystyriaethau niwroamrywiaeth mewn hyfforddiant (ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru). Roedd awgrymiadau hefyd y dylai'r hyfforddiant ddod ag egwyddorion eraill ynghyd, megis bod yn ystyriol o drawma a chymorth cyntaf iechyd meddwl. Gallai digwyddiadau hyfforddi ar y cyd hwyluso cydweithredu a chysylltiad.

Mae angen i wasanaethau fod yn gyson ac yn gydgysylltiedig gyda ffocws cryfach ar atal

Tynnwyd sylw at barhad a chysylltiad rhwng gwasanaethau hefyd fel elfen bwysig o ran mabwysiadu dull system gyfan a gallu cynnig “trosglwyddiad cynnes”. Roedd cefnogaeth hefyd i fwy o ffocws ar gefnogi'r rhai a oedd yn wynebu risg o hunanladdiad a hunan-niweidio a sefydlu gwasanaeth cenedlaethol. Roedd hyn yn thema i'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn ymgynghori ar grwpiau blaenoriaeth a risg uchel hefyd.

Sut ydych chi'n mynd i addysgu system gyfan pan rydyn ni wedi'n rhannu'n saith bwrdd iechyd gwahanol, 22 awdurdod lleol gwahanol, cannoedd o ysgolion ym mhob awdurdod lleol. (Rhwydweithiau a Fforymau Rhanbarthol)

Mae angen cymorth ar staff hefyd

Daeth thema gref i'r amlwg ynghylch yr angen i gefnogi staff sy'n dod wyneb yn wyneb â'r materion heriol hyn ac sy'n gallu profi trawma dirprwyol. Ychwanegodd ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru at hyn, gan adrodd am yr angen i gynorthwyo oedolion i brosesu eu trawma, eu profiadau yn y gorffennol a'u rhagfarnau fel y gallant gynorthwyo pobl ifanc yn effeithiol.

Mae angen i ni ddefnyddio rhwydweithiau presennol a manau y gellir ymddiried ynddynt

Tynnodd ymatebion sylw at y ffaith bod gan lawer o wasanaethau rhwydweithiau sefydledig y gellid eu defnyddio ac sy'n ddefnyddiol i gael mynediad at grwpiau sy'n cael eu tanwasanaethu ac sy'n wynebu risg.

Mae'n debygol y bydd cyfleoedd wedi'u sefydlu eisoes mewn cymunedau lle gellir rhannu'r wybodaeth hon, megis grwpiau a chlybiau – lleoedd y mae unigolion yn eu defnyddio eisoes ac yn eu hystyried fel lleoedd diogel yn barod. (Dienw)

Roedd awgrymiadau hefyd y gallai ymgyrchoedd a'r cyfryngau cymdeithasol fod yn ddefnyddiol at y diben hwn.

Mae angen ymgorffori hyfforddiant wrth ddarparu gwasanaethau

Roedd yr ymatebion yn galw am symud i ffwrdd o hyfforddiant “untro” a thuag at ddull mwy cynaliadwy ac wedi'i wreiddio, gyda hyfforddiant hunanladdiad a hunan-niweidio wedi'i ymgorffori fel rhan o'r cwricwlwm mewn ysgolion, addysg uwch ac addysg bellach ac mewn graddau prifysgol perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant athrawon.

Mae angen ymgorffori hyfforddiant ar hunanladdiad a hunan-niweidio yng nghwricwla gweithiwr proffesiynol allweddol, o athrawon i nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol a mwy. (Dienw)

Mae angen i ni ddiffinio “trallod emosiynol” yn well

Tynnwyd sylw at yr angen i ddiffinio “trallod emosiynol” yn well, gan nodi y gallai ymddangos mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol bobl (e.e. niwrowahanol neu drawsrywiol). Siaradodd cyfranogwyr yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru am: “...ddealltwriaeth aneglur o straen o gymharu â gorbryder, materion lles o gymharu â salwch meddwl, iechyd meddwl a llesant meddyliol o gymharu â materion iechyd meddwl. Mae llesiant meddyliol yn rhywbeth sydd gan bawb, o gymharu â salwch meddwl nad yw gan bawb” (Lab Cyd-gynhyrchu Cymru).

Cwestiwn 8: Eich barn ar Amcan 5

Sicrhau bod ymateb priodol a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnig i bawb sy'n hunan-niweidio, sydd â meddyliau hunanladdol, neu sydd wedi dioddef profedigaeth neu gael eu heffeithio oherwydd hunanladdiad, gan hybu adferiad effeithiol a lleihau stigma.

Sut y byddwn yn gwneud hyn

Is-amcan 5a: Drwy gydweithio ar draws sectorau, sefydlu disgrifiad clir o ymateb amserol, rhagweithiol a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb sy'n hunan-niweidio neu'n wynebu risg o hunanladdiad sy'n cyflwyno eu hunain i unrhyw ran o'r system, gan gyfrannu at leihau stigma a gwneud hynny yn unol â Chanllawiau NICE (5), gan gynnwys asesiad seicogymdeithasol, cynllunio diogelwch, therapïau seicolegol a dulliau seiliedig ar dystiolaeth eraill sy'n helpu i gadw pobl yn ddiogel.






Is-amcan 5b (yn cyfrannu at amcan 3 hefyd): Datblygu trefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel y gellir ymateb yn gyflym i achosion ble mae hunanladdiad tybiedig ac adnabod clystyrau, o fewn ardaloedd ac ar draws ffiniau.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r amcan a pham. Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r is-amcanion a pham. Gwnaethon ofyn i chi hefyd beth y credwch y dylid ei gynnwys yn ein Cynllun Cyflawni fel y gallem gyflawni'r amcan.

Yr hyn ddywedoch chi

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol. Amcan 5: Sicrhau bod ymateb priodol a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnis i bawb sy'n hunan-niweidio, sydd â meddyliau hunanladdol, neu sydd wedi dioddef profedigaeth neu gael eu heffeithio oherwydd hunanladdiad, gan hybu adferiad effeithiol a lleihau stigma.

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		69.05%	58
2	Cytuno		27.38%	23
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		1.19%	1
4	Anghytuno		1.19%	1
5	Anghytuno'n gryf		1.19%	1
			wedi'i ateb	84
			wedi'i hepgor	42

Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 5. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		38.89%	28
2	Cytuno		51.39%	37
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		6.94%	5
4	Anghytuno		1.39%	1
5	Anghytuno'n gryf		1.39%	1
			wedi'i ateb	72
			wedi'i hepgor	54

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Strwythur a ffocws yr amcan a'r is-amcanion

Nid oedd pob ymateb yn gefnogol i'r amcan a'r is-amcanion. Roedd galw am i'r amcan gael ei wahanu ymhellach rhwng y rhai sy'n hunan-niweidio ac sy'n cael meddyliau hunanladdol, a'r rhai sydd wedi'u heffeithio neu sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

Gan fod y ddau grŵp wedi'u huno, mae'n anodd gwneud synnwyr o'r amcanion - sy'n cael ei ddangos gan y ffaith bod is-amcan 5b hefyd yn berthnasol i Amcan 3. Rwy'n credu y byddai hyn yn fwy effeithiol pe bai'n cael ei rannu'n ddau Amcan, yn enwedig gan mai hwn yw'r prif amcan 'ymyrraeth'. (Dienw)

Roedd rhai yn teimlo y dylid cynnwys is-amcanion ychwanegol – er enghraifft, canolbwyntio ar: gefnogi'r rhai sydd wedi bod yn ymddwyn yn hunanladdol; allgymorth (o ystyried na fydd pawb sy'n cael meddyliau hunanladdol, neu sydd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad, neu sy'n hunan-niweidio, yn ymwneud â gwasanaethau a chymorth presennol); hawliau plant; a gwerthuso.

Cyfeiriwyd yn benodol at allgymorth a chefnogi'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, ynghyd â ffocws ar y pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

Galwodd plant a phobl ifanc am gymorth ar gyfer cyfnodau pontio allweddol mewn bywyd, er enghraifft, newid ysgol, y glasoed a gwasanaethau plant i oedolion (Ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru).

Fe wnaeth yr ymatebion sôn hefyd am y geiriad a'r iaith a ddefnyddiwyd yn yr amcan a'i fod yn canolbwyntio gormod ar iechyd.

Ond roedd ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru yn beirniadu defnyddio dangosyddion iechyd corfforol ym maes iechyd meddwl hefyd. Roedd yr ymatebion yn sôn yn negyddol am anhwylderau bwyta yn cael eu cysylltu â BMI isel ar gyfer triniaeth. Dywedwyd hefyd mai dim ond y rhai sy'n hunan-niweidio neu'n ceisio cyflawni hunanladdiad dro ar ôl tro y mae cymorth hunan-niweidio a hunanladdiad ar gael ar eu cyfer, a bod hyn yn gymhellant i uwchgyfeirio ymddygiad er mwyn cael help.

Gwnaeth eraill sylwadau penodol ar y cyfeiriad at Ganllawiau NICE, gan dynnu sylw at y ffaith nad oes unrhyw rwymedigaeth ar ran darparwyr yng Nghymru i ddilyn canllawiau NICE.

Dull sy'n ystyriol o drawma a dim drws anghywir

Thema bwysig oedd bod ymatebion yn tynnu sylw at egwyddorion ychwanegol y dylid cyfeirio atynt. Yn benodol, roedd cefnogaeth gref i gynnwys egwyddorion “dim drws anghywir” ac “ystyriol o drawma,” ynghyd â galwadau am i'r amcan a'r is-amcanion gyfeirio'n benodol at fframwaith Cymru sy'n ystyriol o drawma. Daeth pwysigrwydd y dull dim drws anghywir i'r amlwg yn ymgysylltiad Lab Cydgyhyrchu Cymru lle siaradodd pobl ifanc am yr angen i systemau allu ymdopi â chyflyrau sy'n cydfodoli fel niwroamrywiaeth, iechyd meddwl a hunanladdiad a hunan-niweidio (Ymgysylltiad Lab Cydgyhyrchu Cymru).

Yn cyd-fynd â hyn, amlygodd ymatebion fod angen i amgylcheddau cefnogol gefnogi a hwyluso a “gwneud hyn yn dda” – er enghraifft, drwy ddarparu lleoliadau preifat, tawel, cyfrinachol, cyfforddus, hygyrch ac anghlinigol. Ategwyd hyn gan blant a phobl ifanc a ychwanegodd yr angen am amgylcheddau cefnogol mewn ysgolion hefyd (Ymgysylltiad Lab Cydgyhyrchu Cymru).

Dull traws sectorol a chydweithio

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn teimlo bod angen dull traws sectorol i gyflawni canlyniadau bwriedig yr amcan a'r is-amcanion a sicrhau llwyddiant, ynghyd â chysondeb yn y defnydd o iaith, terminoleg a diwylliant a rennir ar draws y sefydliadau dan sylw. Tynnodd llawer sylw at bwysigrwydd cyd-fynd â [Cymru sy'n Ystyriol o Drawma](#) i gefnogi dull cydlynol, cyson o ddatblygu a gweithredu ymarfer sy'n ystyriol o drawma.

Roedd galw hefyd am ganllawiau ynghylch gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd; cydweithio ag asiantaethau megis tai a'r Adran Gwaith a Phensiynau i leihau straen; ymestyn cyfrifoldebau atal i gyflogwyr, ysgolion a cholegau; a gwaith trawslywodraethol sy'n ymwneud â materion megis amseroedd aros gofal iechyd a materion staffio.

Ymateb yn gyflym i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad

Roedd yr ymatebion yn pwysleisio'r angen i gyflwyno gwasanaethau ymateb cyflym i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad – er mwyn i bobl gael gafael ar gymorth ar unwaith yn ôl yr angen, a ddarperir yn lleol. Gwnaethant dynnu sylw hefyd at y ffaith bod llywodraethu priodol yn hanfodol, ynghyd â chynllun cyflawni ar gyfer cryfhau a safoni a gwerthuso gwasanaethau ymateb cyflym. Roedd awgrymiadau hefyd ynghylch ymarferion i brofi'r ymateb cyflym a hyrwyddo gweithio ar draws sectorau / aml-broffesiynol, a rhannu arfer gorau ymhlith Byrddau Partneriaeth.

Cymorth i'r rhai sy'n ceisio cyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio

Thema allweddol arall o'r ymatebion oedd yr angen i ystyried darpariaeth arbenigol a gwasanaethau ymateb cyflym i bobl sy'n cael meddyliau hunanladdol ac sydd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad, yn ogystal â chefnogaeth i ffrindiau a theulu. Byddai hyn law yn llaw â sicrhau ymateb cyflym i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

Mae'n teimlo fel bod y rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad yn cael mwy o gymorth brys na'r rhai sy'n teimlo eu bod am ddod â'u bywydau i ben. Mae angen ymateb cyflym i'r bobl hyn hefyd. Mae'n teimlo fel nad yw lleisiau'r rhai sydd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad ac wedi goroesi wedi cael eu clywed, a'u bod wedi'u boddi gan leisiau cryfach y rhai sydd mewn profedigaeth. (Dienw)

Yn yr un modd, fel yr amlygwyd yn y thema drawsbynciol ar hunan-niweidio, dylai darpariaeth arbenigol fod ar waith hefyd ar gyfer pobl sy'n hunan-niweidio. Pwysleisiodd ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru na ddylai'r cymorth hwn fod yn ddibynol ar argyfwng neu ddifrifoldeb er mwyn atal "cymell" ymddygiadau peryglus i gael cymorth.

Mae angen gwaith brys ar yr ymateb i hunan-niweidio, sydd ymddangos fel ei fod yn mynd ar goll yn yr agenda hon bob amser. Hyd nes y caiff ei ystyried yn rhan o ddiben craidd gwasanaethau iechyd meddwl, ni fydd gwasanaethau atal hunan-niweidio a lleihau hunan-niweidio byth yn gweithio. (Dienw)

Llwybrau clir

Tynnodd yr ymatebion sylw at yr angen am lwybrau clir ledled Cymru i gynorthwyo'r rhai mewn angen.

Yn benodol, mae angen asesiad realistig o'r gofal a ddarperir yn y gymuned i bobl sy'n cael meddyliau hunanladdol, gyda chynlluniau wedi'u datblygu ar lefel leol, a gwasanaethau ôl-ymyrraeth ar gael yn lleol. Roedd galw am linell gymorth 24 awr gan y GIG, yn ogystal â gwasanaeth sy'n darparu cymorth tymor hwy. Galwodd ymgysylltiad Lab Cydgynhyrchu Cymru am fwy o rannu a chyhoeddu'rwydd i linellau cymorth presennol. Galwodd pobl ifanc am gymorth awtomatig mewn ysgolion hefyd ar ôl marwolaeth drwy hunanladdiad yn hytrach na dull optio i mewn (ymgysylltiad Lab Cydgynhyrchu Cymru).

Gweithio mewn ysgolion i gefnogi disgyblion ar ôl marwolaeth, dylai cymorth gael ei gynnig yn awtomatig (nid “os ydych chi eisiau help, dewch aton ni”, nid dyna'r dull cywir gan fod y nifer sy'n derbyn y cymorth yn isel, er bod ei angen). (Lab Cydgynhyrchu Cymru)

Roedd yr ymatebion yn galw hefyd am fwy o gyfleusterau “encilio / noddfa / lle diogel” drws agored yn y gymuned, ac yn cydnabod rôl bwysig grwpiau cymorth yn y gymuned. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod ymgysylltiad cyrff proffesiynol a gwasanaethau sy'n darparu therapïau seicolegol mewn cymunedau ledled Cymru yn hanfodol hefyd.

Heriau a rhwystrau

Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw hefyd at heriau a rhwystrau i gyflawni'r amcan a'r is-amcanion. Er enghraifft: Gall pobl deimlo eu bod ar “chwyrlligwgan” o ran cael mynediad at gymorth priodol. Gwnaeth rhai sylwadau ar wasanaethau iechyd meddwl “dan gryn bwysau”, sy'n gallu bod yn rhwystr sylweddol o ran cael gafael ar ymateb prydlon i unigolion sydd mewn trallod.

...y 'chwyrlligwgan gwasanaethau' a oedd yn cynnwys ymadroddion mor aml fel “Nid ein cyfrifoldeb ni yw hwn, dylech chi fynd at.....” Mae hwn yn rhwystr sylweddol i ymatebion prydlon i unigolion mewn trallod. (Y Trydydd Sector)

Ar ben hynny, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael ymateb priodol, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (os ydynt wedi hunan-niweidio neu wedi ceisio cyflawni hunanladdiad), mae angen canolbwyntio'n benodol ar gymryd camau i atal gorflinder a blinder tosturi yn yr unigolion hynny sy'n gweithio mewn gwasanaethau.

Nodwyd sawl enghraifft o'r heriau a'r rhwystrau presennol mewn un ymateb, a dynnodd sylw at y ffaith “nad oes digon o amser mewn lleoliadau gofal iechyd i'r rhai â chyflyrau ac anghenion iechyd cymhleth, gan arwain at uwchgyfeirio trallod gan nad yw gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn bosibl yn yr amser a neilltuwyd” (Dienw).

Lleihau stigma

Mae lleihau stigma yn allweddol i gyflawni'r amcan hwn. Dywedodd yr ymatebion fod stigma'n parhau i fod yn rhwystr rhag cael gafael ar gymorth a bod angen herio stigma posibl mewn gwasanaethau. Gwnaeth ymatebion sylwadau ar yr angen i greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hunan-niweidio er mwyn lleihau stigma.

Tynnodd yr ymatebion sylw at yr angen i gydnabod y gwahanol fathau o stigma a allai fod yn gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) stigma mewnol, stigma proffesiynol, stigma sy'n seiliedig ar ddarparwr, stigma cyhoeddus a'r defnydd o iaith sy'n stigmatiddio. Roedd galw am fwy o eglurder ar hyn ac am yr “angen i ddad-ddrysu'r cyfeiriad at stigma yn is-amcan 5a” (Statudol).

Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol

Roedd llawer o ymatebion yn croesawu datblygiad y Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol, er bod pryderon hefyd ynghylch y posibilrwydd o ddyblygu darpariaeth.

Cyfathrebu

Codwyd strategaeth gyfathrebu glir, yn ogystal â'r angen am gyfathrebu effeithiol a hygyrch, mewn ymatebion.

Roedd cyfathrebu'n allweddol hefyd o ran dewis iaith unigolyn, ac roedd angen i staff gael hyfforddiant priodol mewn perthynas â diwallu anghenion cyfathrebu hygyrch.

Cwestiwn 9: Eich barn ar Amcan 6

Dull cyfrifol o ran cyfathrebu, adroddiadau yn y cyfryngau, a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â hunan-niwed, hunanladdiad ac ymddygiad hunanladdol.

Beth mae'r amcan hwn yn ei olygu

Gwyddom fod rhai mathau o adroddiadau yn y cyfryngau'n gallu arwain at ymddygiad dynwaredol neu hunanladdol, ond mae'r cyfryngau'n gallu bod yn ffordd bwerus hefyd o roi gobaith i bobl neu eu hannog i ofyn am help. Mae'r Samariaid yn darparu canllawiau i'r cyfryngau ar gyfer adrodd am hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae'r amcan hwn yn cydnabod yr angen i sicrhau adroddiadau cyfrifol gan y cyfryngau, ond hefyd gan unrhyw fath o adroddiadau ynghylch hunanladdiad neu hunan-niwed.

Sut y byddwn yn gwneud hyn

Is-amcan 6a: Parhau i ddatblygu a gwreiddio iaith gyffredin gyson ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio a'r derminoleg a ddefnyddiwn.






Is-amcan 6b: Cynnal polisi a chanllawiau o ran adrodd, cyfryngau a chyfathrebu.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi





Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r amcan hwn a pham. Gofynnwn ni i chi a oeddech chi'n cytuno â'r is-amcanion a pham. Gwnaethon ni ofyn i chi hefyd beth y credwch y dylid ei gynnwys yn ein Cynllun Cyflawni fel y gallem gyflawni'r amcan.

Yr hyn ddywedoch chi

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol. Amcan 6: Dull cyfrifol o ran cyfathrebu, adroddiadau yn y cyfryngau, a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â hunan-niwed, hunanladdiad ac ymddygiad hunanladdol.

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		58.82%	50
2	Cytuno		30.59%	26
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		8.24%	7
4	Anghytuno		1.18%	1
5	Anghytuno'n gryf		1.18%	1
			wedi'i ateb	85
			wedi'i hepgor	41

Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 6. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Cytuno'n gryf		36.84%	28
2	Cytuno		47.37%	36
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno		14.47%	11
4	Anghytuno		1.32%	1
5	Anghytuno'n gryf		0.00%	0
			wedi'i ateb	76
			wedi'i hepgor	50

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

laith gyffredin ddibynadwy a ffeithiol

Tynnodd yr ymatebion sylw at y ffaith y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag arbenigwyr, y trydydd sector a'r rhai sydd â phrofiad bywyd i sicrhau bod yr iaith gyffredin ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yn ffeithiol, yn berthnasol ac yn ddibynadwy.

Roedd yr ymatebion yn awgrymu hefyd y dylai gwybodaeth a ffynonellau ar hunanladdiad a hunan-niweidio ddod gan y rhai sydd â phrofiad bywyd ac arbenigwyr yn y maes i ganiatáu ar gyfer adrodd cyfrifol a chyfeirio priodol.

Tynnodd rhai ymatebion sylw at effaith adrodd ar deuluoedd mewn profedigaeth ac awgrymwyd y dylai teuluoedd gael dewis o ran yr hyn a adroddir a faint o fanylion sy'n cael ei rannu.

Mae angen tryloywder, a pharchu'r rhai yr effeithir arnynt ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf. Efallai na fydd rhai teuluoedd eisiau rhannu gwybodaeth a dylid sicrhau bod y cyfryngau'n parchu hyn. (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig)

Cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu cadarnhaol yn y cyfryngau

Roedd llawer o'r ymatebion yn cydnabod bod straeon a chyfeiriadau cadarnhaol wedi bod yn y cyfryngau – gan ddweud y gall y cyfryngau gael dylanwad mawr drwy hyrwyddo ymddygiad sy'n ceisio cymorth ac adferiad cadarnhaol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym y dylid cydnabod hyn ymhellach yn y strategaeth ac unrhyw ganllawiau i'r cyfryngau, er mwyn annog cyfathrebu cadarnhaol pellach, ynghyd ag awgrymiadau o sut y gellid creu straeon cadarnhaol.

Siaradodd cyfranogwyr yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru am y cyfleoedd cadarnhaol i'r cyfryngau normaleiddio siarad am iechyd meddwl ond roeddent yn teimlo bod “tabŵ” o hyd ynghylch siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio.

Canllawiau clir ar gyfer adrodd ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn y cyfryngau

Roedd cefnogaeth gref i ganllawiau'r Samariaid a sut y dylai'r rhain fod yn sail i adrodd ar y cyfryngau. Roedd yr ymatebion yn argymhell canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), NICE a Papyrus hefyd ar adrodd ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn y cyfryngau, gan awgrymu bod y rhain yn fwy manwl na chanllawiau'r Samariaid. Yn ogystal, tynnodd ymatebion sylw at arfer gorau gan Bipolar UK, Amser i Newid yng Nghymru a Lloegr, a gwybodaeth ac arbenigedd Mind, Adferiad, Platform a'r Samariaid – gyda galw ar i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r sefydliadau hyn.

Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebion nad oedd yn glir pa ganllawiau y byddai'r strategaeth yn nodi y dylai'r cyfryngau eu dilyn, gydag awgrymiadau y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio arfer gorau eraill i greu eu canllawiau mwy manwl eu hunain, ar gyfer y cyfryngau digidol a phrint, a'r cyhoedd.

Dylanwad y cyfryngau cymdeithasol a galw am newid

Yn ogystal â chytuno'n gryf â'r angen am yr amcan a'r is-amcanion hyn, mynegodd nifer uchel o ymatebion bryder ynghylch dylanwad y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig sut y gall syniadau ar y cyfryngau cymdeithasol wneud i hunan-niweidio a hunanladdiad swnio'n apelgar. Roedd pryderon cryf am y risg o gamwybodaeth ac effeithiau algorithmau ar yr hyn mae pobl yn ei weld drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd nifer o'r ymatebion yn galw am weithredu penodol yn y maes hwn, gan gynnwys monitro cadarn ac adrodd cryf – ac i hyn gael ei bennu'n glir yn y strategaeth.

Siaradodd pobl ifanc yn benodol am yr angen am gyfathrebu cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol ac atal y cyfryngau cymdeithasol fel “amgylchedd gwenwynig” gydag algorithmau cynnwys niweidiol. Gofynnnon nhw am gyfreithiau newydd, gwell rhybuddion sbarduno a mwy o ddiogelu rhag casineb a cham-drin ar-lein (Ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru).

Monitro a gorfodi ymatebol

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch mecanwaith ar gyfer cofrestru gan y cyfryngau, er enghraifft, ar ffurf cytundeb a chanlyniadau clir os na ddilynir y cytundeb.

“Cytundeb ysgrifenedig i'r cyfryngau ei lofnodi mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn hyrwyddo diogelwch ar-lein. Mae angen mecanweithiau ar waith os yw cytundebau'n cael eu torri/ddim yn cael eu bodloni ac i sicrhau bod yr atebolrwydd yn cael ei gynnal.” (Dienw)

Tynnodd llawer o'r ymatebion sylw at yr angen am fonitro ymatebol cyflym, yn enwedig ar-lein, o ystyried cyflymder sylwadau a datblygiad parhaus technoleg a thueddiadau – ac er mwyn atal stigma, targedu camwybodaeth, sicrhau adroddiadau cyfrifol, ac i ddwyn unigolion, yn ogystal â'r cyfryngau, i gyfrif.

Roedd nifer o ymatebion yn galw hefyd am i orfodaeth gael ei rhoi ar waith ac, o bosibl, i ddeddfwriaeth gael ei datblygu i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau a chytundebau.

Dull cydweithredol o reoli'r cyfryngau yn gadarn – yn genedlaethol ac yn y DU

Roedd yr ymatebion yn cydnabod cyfrifoldebau Llywodraeth y DU / heb eu datganoli a gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y mater hwn.

I gydnabod pwerau Llywodraeth y DU yn y maes hwn, galwyd am ddull cydweithredol ledled Cymru ac ar draws y DU gyfan i reoli a herio'r cyfryngau.

Roedd yr ymatebion yn teimlo y gallai Deddf Diogelwch Ar-lein y DU fod yn ysgogiad allweddol wrth weithredu yn y maes hwn ac y dylid adlewyrchu cydnabyddiaeth o'r Ddeddf a'i dyletswyddau yn gryfach yn yr amcan hwn yn y strategaeth.

Roedd cyfranogwyr yn ymgysylltiad Lab Cyd-gynhyrchu Cymru yn tynnu sylw hefyd at yr angen i godi ymwybyddiaeth mewn cyd-destunau diwylliannol penodol.

Ymgyrch Genedlaethol Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai ymgyrch genedlaethol ymwybyddiaeth y cyhoedd fod o fudd wrth gyflawni'r amcan hwn – yn enwedig o ran lleihau stigma, addysgu a chodi ymwybyddiaeth.



Cwestiwn 10: Strategaeth pob oedran

Mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn strategaeth ar gyfer pob oedran. Pryd bynnag y byddwn yn cyfeirio at ein poblogaeth, rydym yn cynnwys babanod, plant, pobl ifanc, oedolion ac oedolion hŷn.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Ydych chi'n meddwl bod y strategaeth yn nodi'n ddigon clir sut y mae'n darparu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran?

Yr hyn ddywedoch chi

Mae hon yn strategaeth ar gyfer pob oedran. Pryd bynnag y byddwn yn cyfeirio at ein poblogaeth rydym yn cynnwys babanod, plant, pobl ifanc, oedolion ac oedolion hŷn. Ydych chi'n meddwl bod y strategaeth yn nodi'n ddigon clir sut y mae'n darparu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran?			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Ydy		53.16%	42
2	Nac ydy		46.84%	37
			wedi'i ateb	79
			wedi'i hepgor	47

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae angen mwy o eglurder ar sut mae'r strategaeth yn strategaeth ar gyfer pob oedran

Fel yr amlygir gan y graff uchod, nododd ychydig llai na hanner yr ymatebion nad oedd yn glir bod y strategaeth hon ar gyfer pob oedran. Mae rhai ymatebion yn nodi eu cefnogaeth i sut mae'r strategaeth yn cynnwys ffocws ar bob oedran; sut mae'n targedu'r boblogaeth gyfan; a sut mae'n darparu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a grwpiau risg. Dywedodd eraill fod diffyg eglurder bod y strategaeth hon ar gyfer pob oedran – er bod cydnabyddiaeth hefyd nad yw hyn “yn broblem o reidrwydd os bydd hyn yn cael ei unioni yn y cam cynllunio nesaf” (Dienw).

Un mater allweddol a gafodd sylw oedd, er bod y strategaeth yn canolbwyntio ar grwpiau risg, nad oes unrhyw alinio ag anghenion grwpiau oedran penodol, ac eithrio

dynion canol oed, a phlant a phobl ifanc (a hyd yn oed ar gyfer y grwpiau hyn – bod diffyg manylion ar flaenoriaethau allweddol).

Mae'r lleoliadau a'r grwpiau agored i niwed / blaenoriaeth yn amlinellu carfannau ac anghenion gwahanol iawn, ac nid ydynt wedi'u halinio'n glir ag oedran heblaw'r cyfeiriad at ddynion canol oed a phlant a phobl ifanc. (Y Trydydd Sector)

Nid yw anghenion gwahanol grwpiau oedran penodol yn cael sylw

Thema arwyddocaol oedd bod anghenion penodol gwahanol grwpiau oedran ar goll ar hyn o bryd (yn enwedig ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc a grwpiau oedran hŷn) ac mai ychydig iawn o ffocws oedd ar flaenoriaethau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a dulliau gweithredu. Mae angen ymrwymadau yn y cynllun cyflawni i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Gwnaeth yr ymatebion sylwadau penodol ar sut nad oedd unrhyw synnwyr o sut beth fyddai gwasanaethau a chymorth ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, na pha gamau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith.

Mae angen canolbwyntio ar bobl hŷn

Roedd yr ymatebion yn codi pryderon ynghylch y diffyg ffocws ar bobl hŷn, gyda nifer o ymatebion yn tynnu sylw at beryglon hunanladdiad ymhlith grwpiau hŷn, yn ymwneud ag iechyd meddwl a chorfforol, ynysigrwydd a'r tebygolrwydd cynyddol o brofedigaeth. Roedd galw ar i'r strategaeth adlewyrchu'r dystiolaeth hon yn well, yn ogystal â chynnwys camau penodol ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith pobl hŷn yn y cynllun cyflawni ategol. Cyflwynwyd awgrymiadau hefyd ynghylch sut y gallai'r strategaeth gysylltu'n well â mentrau ehangach i gynorthwyo pobl hŷn, gan gynnwys Cymunedau Oed-gyfeillgar.

Cwestiwn 11: Asesiadau Effaith

Ynghyd â'r strategaeth ddrafft, rydym wedi paratoi asesiadau effaith i esbonio ein syniadau am effeithiau'r strategaeth. Mae hyn yn cynnwys ein hymchwil ar yr effeithiau posibl.

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Oes unrhyw effeithiau, cadarnhaol neu negyddol, nad ydym wedi'u cynnwys?

Yr hyn ddywedoch chi: Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Gweithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â phobl sy'n hunan-niweidio a/neu'n dangos ymddygiad hunanladdol

Dywedodd rhai ymatebion fod bwllch o ran cydnabod yr effaith a'r angen am gymorth i weithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â phobl sy'n hunan-niweidio a/neu'n dangos ymddygiad hunanladdol. Roedd pwyslais arbennig ar y trawma y gallai staff proffesiynol ei brofi pan fydd rhywun yn hunan-niweidio neu'n marw drwy hunanladdiad, yn benodol mewn perthynas â'r stigma o fod wedi "methu".

Gofalwyr

Nododd yr ymatebion yr effaith ar ofalwyr sy'n cefnogi unigolion sy'n hunan-niweidio neu sy'n wynebu risg o hunanladdiad. Mae'n bwysig mynd i'r afael â sut i gefnogi gofalwyr a lleihau'r straen y gallent fod yn ei brofi.

Effaith negyddol targedu grwpiau risg uchel yn hytrach na ffactorau risg

Yn cyd-fynd ag adborth ar sut y nododd y strategaeth grwpiau blaenoriaeth a risg uchel, dywedodd yr ymatebion hefyd na all gwasanaethau fyth fod yn deg os ydyn nhw'n seiliedig ar y risg i'r boblogaeth yn hytrach na risg bersonol. Felly, mae'n hanfodol cymryd ymagwedd gyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn tuag at atal hunanladdiad a hunan-niweidio, gan ystyried y penderfynyddion cymdeithasol ehangach, gan gynnwys anfantais ddemograffig-gymdeithasol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a straenachoswyr ariannol.

Nid yw'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cydnabod effaith negyddol targedu grwpiau risg uchel. Gall y dull hwn eithrio rhai grwpiau o bobl mewn angen ac, yn anfwriadol, ei gwneud yn fwy anodd iddynt gael gafeol ar gymorth. Amlygwyd hyn gan un ymatebydd a fynegodd bryder mai dim ond rhai grwpiau y cyfeirir atynt a bod angen ystyried yr effaith ar yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Croestoriadedd – ar draws ffactorau risg economaidd-gymdeithasol yn ogystal â nodweddion gwarchoddedig

Yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, byddai'r ymatebwyr yn croesawu mwy o gyfeiriadau at groestoriadedd i gydnabod y ffaith y gall grwpiau penodol fod yn fwy agored i brofi anghydraddoldebau lluosog a allai, yn ei dro, gynyddu eu risg o hunanladdiad a hunan-niweidio.

Mae unigolion sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol a phrofiadau niweidiol, megis diweithdra a dyled na ellir ei rheoli, yn wynebu mwy o risg o ymddygiad hunanladdol, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad economaidd. (Y Trydydd Sector)

Mwy o ddata a thystiolaeth

Yn olaf, amlygwyd er bod gennym ymwybyddiaeth o ba grwpiau y gallai hunanladdiad a hunan-niweidio effeithio'n anghymesur arnynt, mai ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym am y mesurau a'r ymyriadau sydd eu hangen i'w cefnogi. Mae angen mwy o ddata a thystiolaeth i gefnogi hyn.

Yn benodol, mae angen data hygyrch, tryloyw ar hunan-niweidio yng Nghymru i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi'r grŵp hwn; nodi'r ffordd orau o gefnogi gofalwyr yn eu rôl i leihau'r straen y maent yn ei brofi; gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd cymorth anffurfiol; a gwybodaeth ehangach am yr hyn sy'n gweithio wrth gefnogi gwahanol grwpiau a chymunedau demograffig, gan gynnwys cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, cymunedau LHDTTC+ a phobl o aelwydydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.

Cwestiwn 12: Y Gymraeg

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r strategaeth eu cael ar yr iaith Gymraeg. Oes unrhyw beth y gallem ei newid i roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Neu, allwn ni wneud mwy i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Problemau gyda'r cwestiwn

Roedd rhai o'r atebion yn sôn am fod yn ansicr ynghylch beth oedd y cwestiwn yn ei ofyn. Doedd rhai ddim yn deall y cwestiwn, ac roedd rhai yn meddwl ein bod ni'n gofyn y peth anghywir. Er enghraifft, roedd cefnogaeth i archwilio effeithiau'r strategaeth ar bobl sy'n siarad Cymraeg yn hytrach na'r Gymraeg.

Ni fydd y strategaeth yn cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar y Gymraeg

Dywedodd rhai ymatebion na fydd y strategaeth yn cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar y Gymraeg. Dywedodd rhai nad yw'r strategaeth yn berthnasol o gwbl i'r Gymraeg, felly nid oedd angen y cwestiwn.

Bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol

Yn wahanol i'r themâu uchod, roedd ymatebion eraill yn credu y bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol bod y Gymraeg wedi cael ei hystyried yn y strategaeth, ac y gallai gefnogi'r gymuned Gymraeg ei hiaith yng Nghymru.

Roedd gallu siarad am eich profiadau yn eich dewis iaith yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig, mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio. Amlygwyd effeithiau cadarnhaol gallu derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg.

Mwy na Geiriau

Roedd llawer o ymatebion yn croesawu'r cysylltiadau a wnaed yn y strategaeth â'r cynllun 5 mlynedd Mwy na Geiriau. Bydd yn bwysig i'r cynlluniau cyflawni ar gyfer y strategaeth newydd "gyd-fynd a chyfrannu at fframwaith strategol ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal" (Comisiynwyr).

Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd sefydliadau a rhanddeiliaid eraill yn ymrwmo i'r uchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Ar y gorau, mae hunanladdiad a hunan-niweidio'n bynciau anhygoel o anodd i'w trafod yn eich mamiaith eich hun, felly mae darpariaeth i wneud hyn yn haws i bobl yn beth cadarnhaol. Er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, mae angen i bob asiantaeth a sefydliad sy'n gweithredu yn y gofod iechyd/iechyd meddwl fod yn barod i ymrwmo i uchelgais 2050 gyda llinellau atebolrwydd clir yn gysylltiedig â hyn. Ni all

fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ac ychydig o rai eraill yn unig i yrru hyn yn ei flaen. (Y Trydydd Sector)

Mynediad at wasanaethau yn yr iaith a ffefrir gan unigolyn / Cynnig Gweithredol

Roedd pobl eisiau gweld ffocws ar y Gymraeg a phobl yn cael mynediad at wasanaethau a chymorth yn yr iaith o'u dewis, gan adlewyrchu hawliau unigol pobl.

Roedd consensws cyffredin ynghylch yr angen i hyrwyddo'n well sut y gall pobl gael gafael ar gymorth yn y Gymraeg, gyda chymorth camau gweithredu yn y cynlluniau cyflawni, ochr yn ochr â chamau gweithredu sy'n rhoi "mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg" (Comisiynwyr). Roedd disgwyl hefyd y byddai'r strategaeth yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.

Un mater allweddol a godwyd, fodd bynnag, oedd er bod cefnogaeth ar gael ar gyfer sut y cyfeiriodd yr Asesiad Effaith at y cynnig gweithredol yn benodol, nid yw amcanion y strategaeth yn rhoi sicrwydd y bydd gwasanaethau a chymorth ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yn Gymraeg. Yn y bôn, nid yw'n ddigon i hyrwyddo'r cynnig gweithredol yn unig: mae angen sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Yn gysylltiedig â hyn – awgrymodd rhai ymatebion nad yw'r strategaeth yn cyfleu'r angen i bobl dderbyn cymorth, gofal a thriniaeth yn eu hiaith gyntaf (Cymraeg) yn ddigon da.

Mae diffyg siaradwyr Cymraeg rhugl yn effeithio ar y gallu i gynnis gwasanaethau amserol

Nid yw'r gweithlu/gwasanaethau yn cyflawni amcanion y strategaeth ar hyn o bryd mewn perthynas â darpariaeth ddwyieithog a/neu fynediad at wasanaethau yn yr iaith a ffefrir gan unigolyn. Byddai angen ehangu recriwtio er mwyn cyrraedd mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl i ddiwallu anghenion pobl. Roedd yr ymatebion yn arbennig o awyddus i weld yr ymrwymadau a wnaed yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ar gyfer y Gymraeg yn cael eu cynnal yn y strategaeth hon.

Gwnaed galwadau am gynllun manwl ar sut i gynyddu argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg.

Hyfforddiant yn y Gymraeg i staff a myfyrwyr

Thema bwysig arall oedd sicrhau bod staff byrddau iechyd a myfyrwyr yn cael cyfle i ymgymryd â hyfforddiant yn y Gymraeg. Dywedodd yr ymatebion y gallai'r strategaeth gael ei defnyddio i hyrwyddo ac annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd ymatebwyr o'r farn mai Saesneg oedd yr iaith ddiodyn yn bennaf, gan mai dyna'r iaith mae gweithwyr proffesiynol yn cael eu haddysgu ynddi fel arfer. Felly, hyd yn oed os yw aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg, mae'n tueddu i siarad Saesneg yn ddiodyn. Gallai annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg wneud i staff deimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â chleifion am hunanladdiad a hunan-niweidio yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn defnyddio'r Saesneg yn ddiofyn gan mai dyma'r iaith mae'r rhan fwyaf yn dysgu eu proffesiwn ynddi. Gellid gwneud mwy i hyrwyddo neu annog gweithwyr proffesiynol i ddysgu yn Gymraeg, a fyddai'n ei gwneud yn haws defnyddio'r Gymraeg wrth siarad â defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg. (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig)

Mae angen ystyried ieithoedd eraill ac iaith Arwyddion Prydain

Thema bwysig arall a godwyd oedd pwysigrwydd ystyried ieithoedd eraill ochr yn ochr â'r Gymraeg (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain).

Mae angen gwneud y gorau o dechnoleg wrth fynd i'r afael â rhwystrau

Roedd nifer o awgrymiadau yn yr ymatebion ynglŷn â gwneud gwell defnydd o dechnoleg i geisio mynd i'r afael â'r rhwystrau a welwyd wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg. Roedd sôn am ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, deunyddiau rhyngweithiol ar-lein ac animeiddio, ymhlith pethau eraill. Roedd ambell un yn awgrymu defnyddio technoleg ar-lein i gysylltu cleifion mewn un bwrdd iechyd â gwasanaethau mewn byrddau iechyd eraill heb fod angen teithio. Awgrymodd nifer o ymatebion y byddai gwneud y gorau o dechnoleg fodern yn helpu i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth i fwy o bobl.

Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg

Nododd yr ymatebion y gallai mynediad at wasanaethau a chymorth yn y Gymraeg fod yn anodd mewn rhai achosion. Fodd bynnag, dylid gwneud ymdrechion clir i geisio sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg. Nododd rhai bod yr Asesiad Effaith yn sôn mai mater i'r gwasanaeth iechyd meddwl yw cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, yn hytrach na bod y claf yn gorfod gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg (yn unol â'r Cynnig Gweithredol). Fodd bynnag, gwnaethant sôn hefyd nad yw'r amcanion yn y strategaeth yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.

Argyfwng / ymyrraeth gynnar

Mae'n hanfodol bod y rhai sydd mewn argyfwng / sy'n ceisio cael ymyrraeth gynnar yn gallu cael cymorth yn yr iaith o'u dewis, boed hynny yn Saesneg, yn y Gymraeg neu mewn iaith arall.

Cynnydd yn nifer y tudalennau cymorth cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg gan unigolion/elusennau

Gwnaeth ymatebion sylwadau ar y cynnydd yn nifer y tudalennau cyfryngau cymdeithasol iechyd meddwl sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae'n ymddangos bod y tudalennau hyn yn cael eu creu gan elusennau neu unigolion sydd â phrofiad bywyd ac yn helpu i ddarparu cymorth a gwybodaeth yn y Gymraeg.

Mae gan Weithrediaeth GIG Cymru rôl bwysig o ran cefnogi newid mewn perthynas â'r Gymraeg

Gwnaeth ymatebion sylwadau ar y cyfraniad y bydd Gweithrediaeth y GIG yn ei wneud at gefnogi “newid diwylliant” mewn perthynas â'r Gymraeg, a thrwy weithredu'r strategaeth.

Croesawu'r cysyniad o 'ddewis iaith' ond mae angen bod yn ymwybodol y gallai'r dewis hwn newid

Thema arall a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad oedd pwysigrwydd dewis, a chydabyddiaeth y gallai dewis iaith unigolyn newid.

Nid yw'r iaith yn y strategaeth yn cyfieithu'n dda ac mae'n anodd ei deall

Tynnodd rhai siaradwyr Cymraeg a ymatebodd i'r cwestiwn sylw at y ffaith bod peth o'r iaith yn y fersiwn Gymraeg o'r strategaeth yn anodd ei deall a'i bod yn “rhy dechnegol” - ac y bu gormod o gyfieithu llythrennol o'r fersiwn Saesneg. Roedd ymatebion yn galw am eirfa wahanol ac am ddrafftio'r strategaeth gan ddefnyddio “iaith bob dydd” yn hytrach na geiriau cymhleth. Gwnaeth ymatebion sylwadau ar bwysigrwydd sicrhau bod iaith a therminoleg yn yr adnoddau a roddir i unigolion yn cael eu cyfieithu'n gywir ac yn briodol. Gallai adnoddau sydd wedi'u cyfieithu'n anghywir achosi dryswch neu hyd yn oed oedi cyn derbyn y driniaeth gywir. Dylai'r adnoddau hyn fodloni Safonau'r Gymraeg.

Cwestiwn 13: Pwyntiau ychwanegol

Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

Gofynnwn ni i chi a oedd gennych sylwadau ar unrhyw faterion nad ydym wedi ymdrin â nhw yn y strategaeth.

Themâu allweddol o'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Llywiodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn y themâu trawsbynciol a nodwyd ar ddechrau'r crynodeb. Nodwyd ystod o ddata a thystiolaeth hefyd a fydd yn helpu i lywio asesiadau effaith ategol. Yn ogystal, gwnaeth yr ymatebion sylwadau ar y canlynol:

- **Y berthynas rhwng y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (a strategaethau eraill).** Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi cael strategaeth hunanladdiad a hunan-niweidio annibynnol, roedd awgrymiadau hefyd y byddai un strategaeth sy'n ymdrin â'r ddau yn cryfhau'r berthynas a'r trefniadau llywodraethu. Ar sail cael strategaethau ar wahân, gellid bod wedi diffinio'r berthynas rhwng y ddwy ddogfen yn well. Roedd galw hefyd am i'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio esbonio'n well y disgwyliadau ar wasanaethau iechyd meddwl arbenigol mewn perthynas â hunanladdiad.
- **Bylchau mewn gwasanaethau:** Gwnaeth ymatebion sylwadau ar gymhlethdodau darparu gwasanaethau i grwpiau agored i niwed, sy'n gofyn am gydlynu effeithiol ar draws gwasanaethau lluosog. Tynnodd yr ymatebion sylw hefyd at ddiffygion yn yr hyn a nodwyd ganddynt fel "model meddygol" hunanladdiad, lle mae pobl sydd angen cymorth yn cael eu cyfeirio at adrannau damweiniau ac achosion brys, gydag ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth amgen (model llai clinigol / noddfa).
- **Diffiniadau:** Mynegwyd pryderon ynghylch sut rydym wedi diffinio hunanladdiad a hunan-niweidio yn y strategaeth a phroblemau'n ymwneud â'r hyn yr oeddent yn ei gynnwys. Er enghraifft, codwyd cwestiynau ynghylch a oedd hunan-niweidio yn cynnwys anhwylderau bwyta a defnyddio sylweddau, ac a fyddai gwrthod cymryd meddyginiaeth cynnal bywyd yn gyfystyr â hunanladdiad. Nododd yr ymatebion bryderon hefyd ynghylch sut mae diffiniad y strategaeth o hunan-niweidio yn cynnwys ymdrechion i gyflawni hunanladdiad, yn ogystal â gweithredoedd lle nad oes llawer o fwriad hunanladdol, os o gwbl, a sut y gallai hyn greu a chynyddu stigma o bosibl. Gwnaed galwadau penodol ynghylch yr angen i ystyried y strategaeth hunan-niweidio yn yr Alban, ac roedd angen

gwahaniaethu rhwng gweithredoedd hunanladdiad / niwed o fwriad hunanladdol a hunan-niweidio.

- **Cymorth i farw:** Codwyd hyn yn benodol mewn perthynas â phobl hŷn, ynghyd â beirniadaeth nad yw pobl hŷn wedi cael eu nodi fel grŵp blaenoriaeth penodol.

Mae hyn yn hepgoriad pwysig o ystyried y gyfradd uchel o hunanladdiad ymhlith y rhai 90 oed a throsodd. Fel rhan o hyn, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at yr angen i ystyried sut mae'r strategaeth hunanladdiad yn ystyried rôl y bil cymorth i farw. (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig)

- **Adran strategol y strategaeth:** Gwnaeth rhai ymatebion sylwadau hefyd ar adran strategol y strategaeth, gyda sylwadau ar sut mae angen i hyn gipio ac ystyried yn well anghenion poblogaeth amrywiol Cymru, a chynnwys mwy o ffocws ar hawliau plant, yr agenda gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. O ystyried bod hon yn strategaeth ddeng mlynedd, roedd ymatebion yn amlygu'r angen i ystyried datblygiadau ehangach a'u heffeithiau posibl hefyd – er enghraifft, Deallusrwydd Artiffisial.

6. Camau Nesaf

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd. Yn fwyaf nodedig oedd y thema sy'n ymwneud â sut rydym yn ystyried y berthynas rhwng hunanladdiad a hunan-niweidio ac yn cyflwyno hyn mewn ffordd sy'n rhoi mwy o amlygrwydd i hunan-niweidio, gydag amcanion a champau gweithredu pwrpasol i ddiwallu anghenion y rhai yr effeithir arnynt.

Yn ogystal â'r themâu a amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae cryn dipyn o fanylion ychwanegol wedi'u casglu o'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn cael eu defnyddio i lywio'r fersiwn nesaf o'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio.

O ran y camau nesaf:

- Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio'r gwaith o ddatblygu'r fersiwn derfynol o'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'i chynllun cyflawni ategol.
- Byddwn yn cynnal ymgysylltiad pellach wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod yr amcanion strategol yn addas i'r diben a'u bod yn cael eu cefnogi gan gamau gweithredu CAMPUS – a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy i bawb.
- Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y strategaeth a'i Chynllun Cyflawni ategol erbyn diwedd y flwyddyn.

Tîm Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio

Llywodraeth Cymru

Hydref 2024